

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 562 · Mawrth 2025 · 70c

## Dydd Gŵyl Dewi Hapus Ddyffryn Ogwen!



### YN Y RHIFYN HWN:

3

#### Llongyfarchiadau Meilyr!

Cân o Ddyffryn Ogwen yn rownd derfynol Cân i Gymru.

'Petha' newydd ar gael i'w benthg o lyfrgell cymunedol Dyffryn Ogwen

17

Beth hoffech chi ei fenthg?

18

Cerbyd Cymunedol Newydd yn cael ei groesawu gan yr AS



# Llais Ogwan

**Rhif 562**  
**Mawrth 2025**

## Panel Golygyddol

### Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

### Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

### Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev\_hughes@btinternet.com

### Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

### Trystan Pritchard

### Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

### Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

### Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

### Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

### Catrin Wager

(Ffôn 07366 418318)

catrinwager@yahoo.co.uk

### Fflur Roberts

(07767 473209)

fflur\_roberts@hotmail.com

## Swyddogion

### CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

### TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev\_hughes@btinternet.com

### YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

### TRYSORYDD:

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,

Lôn Newydd, Coetmor,

Bethesda LL57 3DT

(Ffôn 01248 605365 /

07949 034967)

PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan  
**Catrin Wager.**

Y golygydd ym mis **Ebrill** fydd  
**Owain Evans**, 4 Rhes Mostyn, Bethesda,  
Gwynedd, LL57 3AB. 07588 636259.  
E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**,  
**29 Mawrth** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau**, **17 Ebrill** yn  
llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW: NID OES GWARANT**  
**Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD**  
**YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD**  
**CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**



## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â  
swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd  
Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael  
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi  
o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un  
o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** – 601415

**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

### Gwledydd Prydain

Yn anffodus, oherwydd  
cynnydd aruthrol yng  
nghostau postio, 'rydym wedi cael ein  
gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3NN (Ffôn 600184)  
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

### Gwobrau Mawrth

£30.00 (136) Doris Shaw, Bethesda.

£20.00 (25) Muriel Owen, Llandygai.

£10.00 (103) Gwen Ellis, Talybont.

£5.00 (139) Eirlys Edwards,  
Llandygai.

## Dyddiadur y Dyffryn

### Mawrth

22 Bore Coffi Capel Jerusalem. Yn y  
Festri. 10.00 - 12.00.

22 Neuadd Ogwen. RYAN YOUNG.

24 Clwb Coffi Talybont. Festri  
Bethlehem. 10.30 – 12.00.

24 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.  
2.30 – 4.00

25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45.

25 Gorsafoedd y Groes.

EglwysGlanogwen am 7.00

28 Neuadd Ogwen. K. O. G.

### Ebrill

01 Gorsafoedd y Groes. Eglwys  
Glanogwen am 7.00.

07 Clwb Coffi Talybont. Festri  
Bethlehem. 10.30 – 12.00.

08 Gorsafodd y Groes. Eglwys  
Glanogwen am 7.00.

08 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45

10 Y Gymdeithas. Adloniant yng  
nghwmni'r Parchg. Wyn Roberts.  
Festri Jerusalem. 7.00.

12 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn  
Ogwen. Festri Jerusalem. 10.00 –  
12.00

15 Gorsafoedd y Groes. Eglwys  
Glanogwen am 7.00.

17 Noson gasglu a dosbarthu Llais  
Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am  
6.45.

22 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45.

28 Clwb Coffi Talybont. Festri  
Bethlehem. 10.30 – 12.00.

28 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.  
2.30 – 4.00.

29 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45

## Rhoddion i'r Llais

£20.00 Er cof annwyl am Gwyn oddi  
wrth Mam a Dad (Tanysgrafell  
Isaf), Angela a'r plant, a Paul  
a'r teulu.

£10.00 Gwyneth Morris, Gerlan.

£12.30 Val. Amos, Glan Ogwen,  
Bethesda.

£6.90 Mân Rhoddion – Bethesda.

£7.06 Mân Rhoddion – Rhiwlas.

£10.00 Doris Shaw, Bethesda.

£20.00 Er cof am David Lyn Jones a  
Cemlyn Llyr Owen oddi wrth  
Bob a Cynthia Jones, 6 Bro Syr  
Ifor, Tregarth.

**Diolch yn fawr.**

# Llongyfarchiadau Meilyr!

Mae Cân i Gymru wedi hen ennill ei le fel noson arbennig yn y calender Cymreig. Ond roedd gwefr ychwanegol leni gan fod talent cerddor lleol ar y llwyfan - gyda Meilyr Wyn, o St Annes wedi cyrraedd y rownd derfynol gyda'i gan "Lluniau ar fy Stryd". Cafwyd perfformiad gwefreiddiol gan Gwen Edwards, a bu i'r gan gipio'r drydedd wobwr! Llongyfarchiadau enfawr Meilyr, Gwen a phawb o'r criw! Bu i olygydd y mis ddal fyny hefo Meilyr i glywed mwy am y profiad.



*Helo na Meilyr! Diolch am siarad 'fo Llais Ogwan! Elli di gyflwyno dy hun i ddarllenwyr Llais? Dwi'n athro y celfyddydau yn ysgol anghenion ychwanegol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth. Dipin o ddeif o Pesda bob dydd ond mae na ddigon o lynoedd ac afonydd lyfli i nofio ynddyn nhw ar y ffordd i'r gwaith gan gynnwys y ffefryn a'r lle oeraf yn y byd sef Pont Ogwen. Dwi'n mwynhau rhedeg yn y mynyddoedd hefyd (yn ogystal a nofio) a dwi'n trio cefnogi y rasmus mynydd lleol (ras y mynydd ydi'r ffefryn, rownd moel y ci).*

Mae gen i ddwy o genod yn eu harddegau a mae nhw wrth eu bodd yn chwarae hoci felly fyddai yn trio ymuno hefo nhw o dro i dro. Mi fyddai yn cael lot o hwyl hefo'r disgyblion yn Hafod Lon yn ysgrifennu caneuon a chreu cerddoriaeth o bob math.

Sut neu pa bryd nes di ddechrau sgwennu caneuon? Dwi wedi bod yn cyfansoddi ers yn ifanc iawn. Roeddwn i yn benderfynol o fod yn gyfansoddwr neu ddyfeisiwr. Roedd cyfansoddi yn dod yn

naturiol ac roedd gen i y mentor perffaith sef fy nhad. [Gol: Mae Meilyr yn fab i Arfon Wyn o'r Moniars]

O ble ddaeth y syniad i gystadlu'n Cân i Gymru? Dwi wedi cael drwodd i Cân i Gymru 5 o weithiau ond dim yn y 14 mlynedd diwethaf. Roeddwn i yn awyddus i gael cân drwodd i Gwen Edwards, sydd yn canu hefo ni yn y band, i'w chanu ar y rhaglen a hefyd cael llwyfan haeddiannol i'r gan on i wedi sgwennu.

O ble ddaeth yr ysbrydoliaeth i'r gan? Mi ysgrifennais i'r gan pan oeddwn i mewn lle anodd yn fy mywyd. Mi wnaeth hi roi rhyw fath o angor i mi ar y pryd - roedd hynny yn ôl yn 2018. Cân ydi hi am gael eich gorfodi i adael fynd, y galar sy'n dod yn sgil hynny a'r rhyddid i ddechrau eto o'r newydd - fel y glaw yn golchi llun artist ar y stryd.

Sut nes di ffeindio'r profiad o cystadlu yn CiG? Gesh i hwyl yn Pen y Bont ar ddiwrnod Cân i Gymru. Roeddwn i'n lwcus gan fy mod yn cael ymlacio a mwynhau'r profiad gan nad oeddwn i yn gorfod canu y gan yn fyw ar y teledu. Mi wnaeth Gwen joban rhagorol o hynny!

Be nesa? Mi fyddai'n parhau i gigio a recordio hefo fy mand 'Ofergoelus'. Mi wnaetho ni fwynhau cefnogi Bwncath yn Neuadd Ogwen yn fuan ar ol y Nadolig a da ni yn chwilio am fwy o gigs tebyg yn fuan.

Pob lwc Meilyr! Edrych 'mlaen i weld Ofergoelus yn chwarau'n lleol yn fuan.



## Braichmelyn

Hoffai Helen a Dylan a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl colli mam, nain a hen nain annwyl yn ddiweddar. Bu farw Edna Jones, gynt o Glanogwen a Braichmelyn, yng nghartref Rhos, Malltraeth ar 15 Ionawr yn 94 oed yn dilyn cystudd hir. Roedd Edna yn wraig i'r diweddar Harry a bu'n gweithio am flynyddoedd lawer yn ffatri Austin Taylor. Roedd yn wyneb cyfarwydd yn yr ardal a ffrind i bawb a oedd yn ei hadnabod. Cynhaliwyd

ei hangladd yn Eglwys Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor ar 13 Chwefror dan ofal y Canon Emllyn Williams a'r Parchedig Sara Roberts a Mrs Christine Williams wrth yr organ. Diolch iddynt am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diolch hefyd i Gareth Williams yr ymgymerwr ac i Siân am y wledd anhygoel yng Nghlwb Golff Bangor yn dilyn yr angladd. Derbyniwyd rhoddion er cof am Edna at Gronfa Mynwent Coetmor a Chartref Rhos.

## Carneddi

### Profedigaethau

Ar fore Llun Chwefror 24ain colodd Griff Williams, Ffordd Cefnfaes ei frwydr yn erbyn salwch oedd wedi ei lethu ers peth amser. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at ei wraig Cynthia, at Ellen, Mark a Paul a'u teuluoedd, a'r holl deulu a ffrindiau estynedig.

Anfonwn ein cofion at Marian a Conrad, Llifon a Gwion, Ffordd Carneddi. Daeth profedigaeth i'w rhan pan gollodd Marian ei brawd Aled, oedd yn byw yn Ne Lloegr. Cydymdeimlwn â chi yn fawr fel teulu yn eich colled ddisymwth.

# Gwanwyn GwyrddNi

## Gwanwyn o Weithredu ac Ymgysylltu Cymunedol

Ydych chi eisiau bod yn rhan o greu cymunedau gwyrdd, gwydn a chynaliadwy?

Bydd Gwanwyn GwyrddNi yn gyfle i chi roi tro ar bob math o bethau: o ddysgu sut i drwsio eich dillad neu eitemau electroneg mewn caffi trwsio, i blannu hadau a thyfu bwyd, neu i ddysgu mwy am fwsog.

Rhwng y 29ain o Fawrth a'r 20fed o Ebrill, bydd calendr o ddiwyddiadau yn cymryd lle ar draws Dyffryn Ogwen, Bro Ffestiniog, Pen Llŷn, Dyffryn Peris, a Dyffryn Nantlle i roi blas ar sut mae cymunedau lleol wedi dechrau ymateb i'r argyfwng hinsawdd a sut fedrwrch gymryd rhan.

Yn 2022 a 2023, cynhaliwyd cyfres o Gynulladau Cymunedol ar yr Hinsawdd yn y pum ardal, a arweiniodd at greu pum Cynllun Gweithredu Hinsawdd Gymunedol. Yn Nyffryn Ogwen, roedd sawl syniad: creu parc cinetig, mapio mwsog, cynnal Gŵyl Hinsawdd, tyfu bwyd lleol - a llawer mwy. Gallwch weld y Cynllun Gweithredu ar wefan GwyrddNi, neu mae copiau caled ar gael gan Partneriaeth Ogwen.

Ers diwedd y Cynulladau yn 2023, mae tîm GwyrddNi, Partneriaeth Ogwen a llawer o wirfoddolwyr brwdfrydig wedi bod yn

gweithio'n galed i roi rhai o'r syniadau yma ar waith. Er enghraifft, mae'r tîm Mapio Mwsog wedi bod yn arwain teithiau cerdded ac wedi bod yn mapio mwsog yn ofalus, tra mae gwaith wedi cychwyn ar greu map rhyngweithiol ar gyfer dangos safleoedd naturiol pwysig yn y Dyffryn. Mae dwy Wyl Hinsawdd wedi cael eu cynnal yn barod, llawer o wirfoddolwyr yng Ngardd Ffrancon ac yn cydweithio hefo ysgolion i dyfu bwyd, grŵp ysgrifennu creadigol at natur a'r hinsawdd, ac mae gwaith ar droed i hyrwyddo teithio gwyrdd, rhannu gwybodaeth am ynni cinetig ac i gynnal gofodau fel Paned i'r Blaned i bobl ddod at ei gilydd a thrafod materion amgylcheddol.

Bydd Gwanwyn GwyrddNi yn gyfle i ddysgu mwy am y weledigaeth a'r gweithredu sydd eisoes yn digwydd, ac i ddod yn rhan o siapio dyfodol ein cymunedau. Mae darlithoedd diddorol am bynciau megis gwneud ein tai yn fwy ynni-effeithlon, y cysylltiad rhwng ein hiaith a'n tir, a'r wyddoniaeth tu ôl i newid hinsawdd yn cael eu trefnu, yn ogystal â nosweithiau ffilm, sgysrsiau, gweithdai, teithiau cerdded, a llawer mwy.

"Rydym yn gyffrous i lansio Gwanwyn GwyrddNi ac yn gwahodd pawb i ymuno â ni

yn y gwanwyn hwn o weithredu cymunedol," meddai Rhian Cahill, Cydlynnydd Prosiect GwyrddNi. "Dyma gyfle i weld y gwaith anhygoel sy'n digwydd ar lefel leol, i ddysgu am ein hamgylchedd, ac i ddarganfod y ffyrdd niferus y gall pob un ohonom gyfrannu at adeiladu cymuned fwy cynaliadwy a gwydn."

Bydd calendr llawn o ddiwyddiadau ar gael ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar <https://www.gwyrddni.cymru/gwanwyn/> neu gallwch gysylltu i ddarganfod mwy neu drafod cydweithio â ni ar ddiwyddiad neu brosiect. Chris ydi Hwylusydd Cymunedol Dyffryn Ogwen: ogwen@gwyrddni.cymru / 07766 793 945

Mae GwyrddNi yn cael ei ariannu gan Gronfa Gweithredu Hinsawdd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i ddarparu gan Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) hefo Partneriaeth Ogwen yn Nyffryn Ogwen, Cyd Ynni yn Nyffryn Peris, Yr Orsaf yn Nyffryn Nantlle, Cwmni Bro ym Mro Ffestiniog, ac Ynni Llŷn ym Mhen Llŷn. P'un a ydych eisiau helpu pob hyn a hyn hefo garddio cymunedol, neu os ydych eisiau cydweithio neu arwain ar brosiect, gadewch i ni wybod - mae rhywfaint o arian had ar gael i sbarduno prosiectau.



Gŵyl Hinsawdd Dyffryn Ogwen, Mai 2024



Y grŵp mapio mwsog ar daith

## YSGOL ABERCASEG

Efallai mewn blynyddoedd i ddod y byddwn yn gweld sêr bach Ysgol Abercaseg ar rhaglen 'Y Llais' ar ôl y Disgo Carioci a gafwyd i ddathlu Diwrnod Miwsig Cymru! Sôn am dalent! Cafodd y plant fodd i fyw yn bloeddio caneuon Cymraeg ac yn dysgu mwy am gerddoriaeth Cymraeg.

Roedd pawb yn teimlo'n llawn cariad yn dilyn gweithgareddau i ddathlu Santes Dwynwen yn ddiweddar. Fe ddysgodd y plant am y stori enwog gan gynnal arbrofion a oedd yn rhewi'r cymeriadau! 'Sgwn i os

lwyddodd y plant i'w dadmer?! Pa ffordd well i offen p'nawn dydd Gwener na chael disgo i ddathlu'r diwrnod, roedd llawer iawn o ddawnsio a chwerthin a phawb yn cyrraedd adref wedi ymlâdd!

Diolch yn ofnadwy i'r archifdy yng Nghaernarfon am eu cyflwyniad arbennig ar hen deganau. Cafodd y plant bleser yn edrych arnynt ac yn mwynhau edrych ar luniau o Bethesda o'r gorffennol.

Roedd Ysgol Abercaseg yn le diogel iawn yn ystod yr wythnos olaf cyn yr hanner tymor gan

fod nifer o blismyn bach yn cadw trefn! Diolch o galon i PC Andy am ddod draw ac am siarad gyda'r plant am bwysigrwydd dioglewch y ffordd a sut i gadw'n ddiogel yn gyffredinol. Heb os, roedd y plant wrth eu boddau yn cal gwisgo'r wisg.

Edrychwn ymlaen am hanner tymor prysur arall yn dilyn y gwyliau lle byddwn yn dathlu Cymreictod mewn steil! Mi fydd y plant yn cael dathliadau Gŵyl Dewi, wythnos i ddathlu Cymru Cŵl gan goroni'r cyfan gyda Eisteddfod!

# YSGOL PEN-Y-BRYN

## Cyfansoddi Gyda Osian

Cafodd disgyblion blwyddyn 3 brofiad gwych o fynd ati i gyfansoddi cân am yr ardal leol gyda Osian Williams o'r band Candelas. Roedd y plant yn llawn syniadau, ac yn falch iawn o'u gwaith wrth ganu'r gân i'w cyd-ddisgyblion.

## Dydd Miwsig Cymru

Cafwyd llond trol o hwyl yn dathlu Dydd Miwsig Cymru eleni mewn steil a hynny wrth gynnal bore Bingo caneuon Cymraeg!

## Gong Bath

Diolch o galon i Beca, Llonyddwch, am ddod draw i'r ysgol i gynnal bath gong i'r staff gyda'r nos! Mi roedd pawb wedi ymlacio'n llwyr at ddiwedd y sesiwn ac ambell un yn chwyrnu'n braf a phawb yma'n argymhell y profiad yn arw os am dawelu'r meddwl a llonyddu'r corff. Diolch Beca!

## Patagonia

Diolch i Gwenda Davies am ddod atom i siarad am ei hymweliad a Phatagonia. Wrth greu gwasanaeth yn sôn am y Cymry yn codi pac ac yn symud yr holl ffordd i Batagonia. Daeth Gwenda atom i rannu straeon a lluniau o'i thrip. Mae'r cyswllt teulu dal yn gryf yno. Diolch Gwenda!



## Beics Antur

Diolch i Howard a Carwyn o Feics Antur am ddod i'r ysgol i roi gwersi beicio i ddisgyblion blwyddyn 3. Roedd pawb wrth eu bodd yn dysgu sut i ofalu am eu beic a derbyn hyfforddiant ar sut i feicio'n ddiogel. Cytunodd pawb bod eu sgiliau beicio wedi datblygu'n wych ar ôl derbyn cyfres o wersi! Ardderchog wir blant!

## Rygbi Cymysg

Roedd Mrs Thomas yn hynod falch o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yng nghystadlaeth rygbi cymysg Yr Urdd yn ddiweddar, pob un ohonynt yn sêr ac wedi llwyddo i ennill nifer o gemau! Mae pawb yma'n falch iawn ohonoch!



## BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044  
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiâu, priodasau, partion ac ati.

## *Bysus Gwyrdd Rhiwlas*

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL  
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997  
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

[post@llaisogwan.com](mailto:post@llaisogwan.com)

## STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: [stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com](mailto:stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com)

## TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd. Dafydd Meurig@ gwynedd. llyw.cymru	cynghorydd. EinirWyn Williams@ gwynedd. llyw.cymru	cynghorydd. Rheinallt Puw@ gwynedd. llyw.cymru	cynghorydd. Beca Roberts@ gwynedd. llyw.cymru	cynghorydd. Paul Rowlinson@ gwynedd. llyw.cymru
--	--	--	---	---



07765  
400140

Arlechwedd



07747  
690456

Gertlan



07789  
742092

Canol  
Bethesda



07436  
927237

Tregarth  
& Mynydd  
Llandygai



07949  
034967

Rachub

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

## OddBalls

Diolch yn fawr i Leon o'r **OddBalls Foundation** a **Prifysgol Bangor** am ddod i siarad gyda disgyblion blwyddyn 9-13. Roedd nifer o negeseuon pwysig iawn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am gancr y ceilliau ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwirio yn gyson a siarad gyda'ch meddyg pe bai gennych unrhyw bryderon. Dilynwch y linc yma am fwy o wybodaeth. [Raising Awareness of Testicular Cancer – oddballsfoundation \(theoddballsfoundation.com\)](http://Raising Awareness of Testicular Cancer – oddballsfoundation (theoddballsfoundation.com))



## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i ddisgyblion TGAU Addysg Gorfforol ar ôl iddynt berfformio'n wych mewn gêm safoni TGAU yn erbyn Ysgol Tryfan Pawb wedi perfformio'n wych yn unigol ac fel tîm mewn buddugoliaeth o 4-0. Lucas Da Cruz yn rhwydo 3 gwaith a Iago Jones efo 1 gôl.



## Ymweliad Catrin Jones

Cafodd criw o ddisgyblion eu hysbrydoli wrth i Catrin Jones (codwr pwysau Cymru) ddod draw i gynnal sesiwn codi pwysau Olympaidd a chyflwyno gwasanaeth yn pwysleisio dyfalbarhad, mwynhad a phwysigrwydd herio eich hunain er mwyn datblygu. Diolch yn fawr iawn i 'Tîm Cymru' am hwyluso'r trefniadau. Roedd pawb wir wedi mwynhau'r sesiwn a'r her.

Mae Blwyddyn 9 wedi bod yn rhan o weithdy ysgrifennu cerdd 'Yr Actor' gyda Marged Tudur o Brifysgol Bangor yn ddiweddar. Diolch iddi am yr ymweliad, roedd pawb wir wedi mwynhau yn fawr!

## 'Pass Plus' Cymru

Diolch i Uned Diogelwch Ffyrdd Gwynedd am ddod draw gyda stondin yn noson rhieni blwyddyn 12/13. Roedd yn wych gweld ein gyrwyr ifanc yn derbyn cymaint o wybodaeth i gadw pawb yn ddiogel ar y ffyrdd.

## Pêl-rwyd

Roedd cystadleuaeth pêl-rwyd o dan 14 y Sir yn ddiweddar. Fe wnaeth tîm blwyddyn 8/9 yn wych. Roedd safon y chwarae yn anhygoel o uchel. Da iawn chi ferched.



Dilynwch Llais Ogwan ar X  
[@Llais\\_Ogwan](https://twitter.com/Llais_Ogwan)



## Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

### Gwefan newydd Gwynedd.cymru

I ni fel siaradwyr Cymraeg yn enwedig, mae cefnogi gweithgareddau, digwyddiadau, nwyddau, gwasanaethau a busnesau Cymraeg a Chymreig yn bwysig iawn i ni. Ac yn gynyddol, mae llawer o'n bywydau beunyddiol yn cael ei dreulio ar y We trwy ein ffonau clyfar, gliniaduron a thabledi (nid tabledi meddyginiaethol rhag ofn i chi feddwl!).

O ganlyniad i hynny, mae yna ddwy wefan sydd o ddi-ddordeb i chi er mwyn bod ar byls yr hyn sydd yn digwydd yn ein cymunedau.

Nid oes raid bod yn ifanc i fwynhau gigs Cymraeg gan fod cyn gymaint o genre o gerddoriaeth yn bodoli yn y Gymraeg a rhywbeth at ddant pawb o bob oed - Tecwyn Ifan i Bwncath. Gwefan sydd wedi'i lansio yn ddiweddar yw [Awni.cymru](http://Awni.cymru) sy'n cynnwys holl gigiau cerddoriaeth sy'n digwydd yng Nghymru a thu hwnt. 'Cer i ffeindio gig' yw'r frawddeg agoriadol. Mae'r map yn cynnwys

degau o gigs ac wrth i'r erthygl hon fynd i'r wasg, mi wnes i gyfrif 80 o gigiau Cymraeg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Denmarc, Sbaen a Gwlad Belg. Yr hyn sy'n dda am y wefan yw eich bod yn gallu gweld lle ar y map y mae'r gigs. Pan oeddwn i'n mynd yn gyson iawn i gigiau led-led Cymru, bryd hynny, fe roedd y gigiau wedi eu crynhoi rhwng Caerdydd, Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaernarfon. Ac mewn gwirionedd, nid yw'r darlun wedi newid llawer, mae Caernarfon, Caerfyrddin a Chaerdydd yn parhau i ddenu crynhoed dda o gigs, er fod yna ddim cymaint yn Aberystwyth, ond cyfran dda i weld yn y Cymoedd sydd i'w groesawu. A'r hyn sy'n ddifyr ydi fod sawl gig y tu allan i Gymru ac mewn sawl gwlad ar dir mawr Ewrop. Arwydd o ddylanwad cadarnhaol y We ar y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg o bosib? Ond mae'n dangos fod y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg fyw yn ffynnu ac fod posib fwy neu lai fynychu gig bron ar



### Twrnament Criced Gogledd Gorllewin Cymru

Fe chwaraeodd merched blwyddyn 7-10 yn wych mewn gemau cystadleuol iawn yn nhwrnament criced Gogledd Orllewin Cymru. Daeth tîm blwyddyn 9/10 yn ail gan fynd ymlaen i rownd derfynol Gogledd Cymru a blwyddyn 7/8 yn 3ydd. Sêr y twrnament oedd Myla Williams blwyddyn 7 a Gwenno Beech blwyddyn 10. Da iawn!



### Ras 'Winter Trail'

Bu Megan McDonald Jones a Joseff Drew yn cwblhau ras yng Nghoed y Brenin yn ystod mis Chwefror – Winter Trail – 7 milltir heriol iawn.

Diolch o galon i Sport Pictures Cymru am lun gwych o'r ddau yn brwydro yn erbyn ei gilydd.

garreg eich drws – o'r Bala i'r Porth yn y Rhondda, o Gaerfyrddin i Wrecsam. Ac os ydych yn trefnu gig, fe allwn ei gofrestru ar y map digidol. Ewch i chwilota'r map: <https://awni.cymru/>

Mae'r Sîn Gerddoriaeth Gymraeg yn gyfraniad mawr i'r diwylliant Cymraeg, ac yr un mor wir yw'r busnesau a'r cwmnïau sy'n gweithio ac yn hybu eu hunain yn y Gymraeg. Mae yna wefan newydd hanfodol yng Ngwynedd sy'n rhoi llwyfan i fusnesau sydd yn ymfalchïo yn y Gymraeg. Mae'n wir i ddweud fod hyn yn unigryw, ac fel arfer mae'r pwyslais ar ddwyieithrwydd. Mae Gwynedd cymru yn gyfeiriadur ar y We sy'n rhestru busnesau o fewn ffiniau Gwynedd sy'n dathlu ac yn ymfalchïo'r Gymraeg. Y mae'r sylfaenwyr yn grediniol fod yna fwlch sylweddol mewn hyrwyddo busnesau sy'n gweithredu'n Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol. Yn ôl y wefan, "Mae Gwynedd Cymru yn safle sy'n arddangos mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg fel rhan gyfannol o'u gweithgareddau bob dydd. Mae'n wasanaeth rhad ac am ddim

i unrhyw unigolyn, masnachwr unigol neu grefftwr o Wynedd ddod yn werthwr, ac ychwanegu nwyddau neu wasanaethau yn ein marchnad." Ymhlith y busnesau sy'n cael eu hysbysebu eisoes yw Cigyddion OG Owen yng Nghaernarfon; Y Llofft yn Y Felinheli; Caffi Meirion yn Nant Gwrtheyrn, Awen Meirion yn Bala; Antur Stiniog – y Tŷ Coffi ym Mlaenau Ffestiniog.

Byddai'n dda gallu efelychu neu ehangu'r wefan hon i bob rhan o Gymru – gan greu rhwydwaith eang a llwyfan i'r busnesau sy'n rhagori wrth greu awyrgylch Gymraeg, yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg, yn cyfathrebu'n Gymraeg ac yn cynnig gwasanaethau a nwyddau yn y Gymraeg. Yn y pen draw, mae pawb yn elwa, o'r diwylliant i'r economi leol ac fel yn achos y gigiau Cymraeg, maent yn creu a chryfhau gwagleoedd i'r Gymraeg.

Os ydych yn fusnes sy'n gweithredu yn y Gymraeg yng Ngwynedd, ewch ati i hysbysebu eich gwasanaeth neu nwyddau ar y wefan hon neu ewch i chwilio am eich busnes lleol: <https://gwynedd.cymru/>

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**  
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB  
(01248 601318) carys16@hotmail.com

### Eglwys St. Cedol, Pentir

#### Tê Crempog

Prynhawn Sadwrn yr 22 o Chwefror cynhaliwyd Tê Crempog yn yr Eglwys, cafwyd brynhawn llwyddianus gyda'r elw yn mynd tuag at gronfa atgyweirio'r Eglwys. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

#### Clwb Crefftau

Bydd Clwb Crefftau Eglwys St. Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawn Gwener am 2yh o'r 7fed o Fawrth yn yr Eglwys. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

#### Sêl Gemwaith

Prynhawn Sadwrn yr 29 o Fawrth bydd Sêl Emwaith sef gemwaith gwisgoedd a gemwaith lled-werthfawr yn cael ei chynnal yn Eglwys St. Cedol, Pentir rhwng 2 a 4yp. Dewch draw am fargen, panad a sgwrs. Bydd yr elw yn mynd tuag at Cronfa Atgyweirio'r Eglwys.

#### Te Bach

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch, bydd y Tê Bach nesaf ar 2ail o Ebrill 2025. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

#### Sgwrs

Bydd Gareth Roberts o Fenter Fachwen yn dod i'n plith ar y 10 o Ebrill am 7yh i roi sgwrs ar hanes dalgylch Pentir a cysylltiad yr Eglwys a'r ardal. Dewch draw am noson ddfyr iawn.

#### Raffl Misol

Rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Chwefror oedd Nesta Barton yn rhoddedig gan Alison.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

#### Manylion cyswilt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch â'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen [gareth.lloyd@cantab.net](mailto:gareth.lloyd@cantab.net) neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen

Gan Howard Huws

## Cof Gwerin

Croeso i golofn newydd yn “Llais Ogwan” lle byddaf yn trafod diwylliant gwerin y fro. Beth yw “diwylliant gwerin”? Yn fras, yr wybodaeth, y straeon a'r coelion hynny sydd wedi'u traddodi ar lafar gwlad, o genhedlaeth i genhedlaeth, gan gadw cof am yr hyn a ddigwyddai yn y gorffennol, ac esbonio pam y mae pethau heddiw fel y maent.

Mae hwnnw'n rhwyd go eang. Mae'n cynnwys llên gwerin (sef credoau, arferion a straeon a draddodwyd ar lafar), enwau lleoedd a llysenwau, hanesion, rhigymau a chaneuon. Yn aml iawn mae wedi'i angori yn nhirwedd bro, gan gysylltu cof llafar â manau penodol. Yn fwy ymarferol, mae'n cynnwys meddyginiaethau, celf a chrefft, ac arferion gwaith a gorchwyl, hefyd: sut mae iacháu anhwylder, neu wneud gwaith yn “iawn”, heb wastraffu amser ac adnoddau.

Mae hyfforddi'r genhedlaeth nesaf wastad yn rhan bwysig o ddiwylliant gwerin, ond llawn mor bwysig yw diddanu pobl. Fel hyn mae Kate Roberts yn ei ddweud am ei chynefin chwarelyddol hi yn Rhosgadfan:

“Treulid gyda'r nos [wedi'r swper chwarel] fel hyn yn siarad, a naw gwaith o bob deg, dweud straeon y byddid. Yr oedd gan y bobl yma ddawn i adrodd stori'n gelfydd, ac weithiau y dull yr adroddid hi ac nid y stori ei hun a roddai fodlonrwydd.”

Byddai'r siarad, yn bennaf, am “yr hen ddyddiau”, ac “ers talwm”. Hyd at yr Ail Ryfel Byd, o leiaf, cynhelid cystadlaethau “deud c'lwydda” gan chwarelwyr Dinorwig ar ddiwrnodau gwlyb pan fyddai'n rhaid aros yn y caban am oriau. Ac yn yr ardal hon, arferai criw ymhél y tu allan i dŷ John Huws, Tregarth yn yr haf. Un goes oedd ganddo, ac arferai eistedd ar y wal y tu allan i'w dŷ, iddo yntau eu diddanu â'i straeon a'i ddywediadau.

Yr oedd hon yn gymdeithas a bwysleisiai cofio a thraddodi, felly dim rhyfedd i Hugh Derfel ym 1866 fedru cofnodi straeon oddi ar lafar gwlad am frwydr y Dalar Hir rhwng Llanllechid ac Aber ym 1648, rhagor na dau gan mlynedd wedi'r digwyddiad cofiadwy hwnnw. Sut y cuddiwyd pres Cae Mawr yn y gadlas rhag i filwyr y Senedd ei ddwyn; fel y dychwelodd Owain Wiliam Prys



Rowlant o'r Bronydd yn ddiogel o'r gad, a sut y lloriodd Siôn Ifan Bach o'r Tyddyn Isaf sawl milwr Seneddol â golchbren wrth iddynt geisio ysbeilio ei gartref.

Ydi, mae diwylliant gwerin yn wydn ac yn hirymarhaus, ac fel dant y llew â thuedd i orosi, ymaddasu a ffynnu, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau mwyaf anffafriol. Bu i ymlediad Anghydfurfiaeth, dyfodiad y chwyldro diwydiannol, datblygiadau ym meysydd teithio a chyfathrebu, newid arferion a mewnlifiad pobl ddiarth oll ddylanwadu'n fawr ar ddiwylliant gwerin, ond bu'r gymuned

frodorol yn ddigon sefydlog i ddygymod â'r newidiadau hyn, a thraddodi ei diwylliant o genhedlaeth i genhedlaeth. Heb sefydlogrwydd, 'does yna ddim traddodi.

Dwi am i'r golofn hon fod cymaint eich gwaith chi â'm gwaith innau. Byddaf yn codi pynciau ac yn procio eich cof, gan obeithio y byddwch chithau'n ymateb trwy yrru rhagor o ddeunydd ataf ynglŷn â'r pwnc o dan sylw. Gallwch ei yrru ataf ar cyfarchiad@yahoo.co.uk neu roi caniad imi ar 07870 797655. Y tro nesaf: cewri ac ogofâu cylch “Llais Ogwan”.

## Partneriaeth Ogwen

### Ymweliad Gweinidog ac Aelod Senedd

Braf iawn oedd cael croesawu Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Sian Gwenllian, AS i Ganolfan Cefnfaes ar Chwefror 6ed er mwyn dathlu'r holl ddatblygiadau a'r gwaith da sy'n digwydd ar y safle. Cafwyd taith o amgylch y ganolfan a chyfle i'r gwleidyddion weld y cynnydd sydd wedi digwydd gyda'r buddsoddiad o'r gronfa CFP a chronfeydd eraill. Dywed Sian Gwenllian AS “Mae'r gwaith sy'n digwydd yn Nyffryn Ogwen yn codi calon ac yn esiampl ar gyfer cymunedau eraill ar draws Cymru.”






# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## Menyn

Mae menyn yn hanfodol, ac yn rhan o'n negas ni pan awn i siopio. Y gair 'ymenyn' sydd yn y geiriadur. Ers talwm, byddai menyn yn cael ei wneud gartra, a'r enw arno oedd **menyn bach**. Mewn ambell dŷ byddai corddwr ('buddai' oedd enw arall arno) i wneud menyn drwy droi neu guro llefrith neu hufen efo'r dwylo – pren i guro, neu handlan i'w throï. Byddai ffermydd a thyddynnod efo llaethdy, a byddai llyn corddi wrth ymyl y tŷ-ffarm er mwyn cronni dŵr a'i ollwng drwy godi'r fflodiart i droi'r olwyn a weithiai'r corddwr. Gwelir olion nifer o lynnoedd corddi yn yr ardal, fel yr un oedd ar gyfer Plas Coetmor wrth Lôn Bach Odro, a'r ddau a oedd yng Nghoed Isaf. Menyn hallt wedi'i botio oedd **menyn pot**.

Y saws gwyn melys a roddir ar bwddin Dolig ydy **menyn toddi**. Mmm, blasus iawn!



## Ambell Air ac Ymadrodd

Fis diwethaf, mi soniwyd am y gair '**clec**', sef gwneud rhywbeth yn sydyn – "Rho glec i'r peint 'na inni gael un arall" a "Rown ni glec i'r joban yma gyntaf. Mae hi'n 'sgafnach."

Dw i wedi derbyn tair enghraifft arall o ddefnyddio'r gair. Un ydy sŵn ergyd – "Roedd 'na goblyn o glec pan darodd y car y wal." Un arall ydy dywediad angharedig oedd i'w glywed er stalwm pan oedd merch ddi-briod yn dod yn feichiog – "Mae hi wedi cael clec." A'r llall ydy cael ergyd yn ariannol – "Roedd y gwaith ar y tŷ yn ddrud ofnadwy. Mi gawson ni dipyn o glec."

**syrrthio'n glwt.** Syrthio'n swp ydy hwn; syrthio'n syth i lawr fel clwtyn llawr.

**mae hi wedi mynd.** Dywedwn hyn pan fydd pethau wedi mynd er gwaeth – "Welaist ti faint oedd y sgodyn a tsips 'na'n ei gostio? Ew, mae hi wedi mynd, yn tydi?"

**faint neith hi.** Holi faint o'r gloch ydy hi – "Faint neith hi ŵan? Well inni ei symud hi neu mi fyddwn ni'n hwyr?"

**llipa.** Gwan ydy hwn. Rhywun neu rywbeth yn cael trafferth i ddal ei hun i fyny – "Mae'r planhigyn na'n marw, Edrycha! Mae'r dail wedi mynd yn llipa." Hefyd, "Mi lewygodd yr hogan. Aeth hi'n llipa i gyd a syrthio."

**fel cadach llestri.** Disgrifiad o rywun gwan ydy hwn – "Dw i'n teimlo'r wan fath â cadach llestri."

**bys yn ei geg.** Ddim yn gwybod beth i'w wneud nesa' – "Roedd o â'i fys yn ei geg heb wbod be' oedd o'n mynd i neud nesa'." Dyma gofio rhigwm a ddefnyddiwn yn blant – "Bys i fyny, bys i lawr, Bys yn geg babi mawr."

**dim clem.** Ddim yn gwybod sut mae gwneud rhywbeth – "Does gynno hi ddim clem sut mae defnyddio cyfrifiadur."

**tincian.** Sŵn metal yn taro rhywbeth, fel sŵn cloch neu forthwyl ar gŷn; hefyd

nodau uchel ar biano. Gan mai dirgryniad sy'n creu sain, mae 'tincian' yn cael eu ddefnyddio i ddisgrifio rhywun yn ysgwyd ar ôl cael ergyd – "Mi gafodd o swadan nes oedd o'n tincian."

**del.** Hardd neu tlws mae hwn yn ei olygu, ond rydan ni'n ei ddefnyddio fo mewn ffordd annwyl, fel 'cyw' – "Wyt ti'n siŵr dy fod ti'n iawn, del?"

**clws.** Gair arall am 'tlws' ydy hwn – "Mae 'na rywbeth yn glws ynddi."

**ers meitin.** Rhywbeth sydd wedi digwydd peth amser, ond yn ystod yr un diwrnod. "Ydy Wil yn dal yma?" "Ew nacdi mae o wedi mynd ers meitin."

**sgeg/ sceg.** Gall rhywun gael sgeg fel canlyniad i salwch neu ddamwain, neu, efallai brofedigaeth. "Mi gafodd hi sgeg ar ôl torri ei choes / dioddef o'r eryr / gollodd ei chwaer."

**cysetlyd.** Dyma un anodd i'w ddisgrifio. Sut un ydyw person cysetlyd? Efallai un sydd yn well ganddyn nhw gadw hyd braich, neu nad ydynt yn hoff o rannu unrhyw faich ac yn cadw'n breifat. Nid ydych yn hoffi holi gormaod oherwydd – un cysetlyd iawn ydidi!

**nogio.** Pan fo rhywun yn ymgymeryd â gorchwyl arbennig ac yn methu mynd ymlaen yna mae yn nogio. Gellir dweud hefyd am gar "Roedd wedi nogio cyn cyrraedd pen yr allt."

**dan law doctor** Os ydych yn dioddef o unrhyw salwch hir dymor yna rydych 'dan law doctor'. Weithiau pan glywir am farwolaeth sydyn gofynir y cwestiwn "Oedd o dan law doctor dwad?" Yr hyn a dynnodd fy sylw at yr ymadrodd yma oedd darllen stori, yn Saesneg, wedi ei lleoli yn ne ddwyrain Cymru a dyma'r geiriau 'He was under the doctor.'

## Iaith ar Daith yn Ffilmio gyda Beics Ogwen

Y gweithdy wedi parhau'n brysur gyda Kyle yn atgyweirio beics pobl leol a rhentu beics trydan allan ar gyfer oedolion. Un o uchafbwyntiau'r mis oedd croesawu Lisa Jen o'r Gerlan acw gyda'r actor Callum Scott Howells ar gyfer ffilmio'r rhaglen 'Iaith ar Daith'. Huriodd y ddau feiciau trydan ac edrychwn ymlaen at eu gweld ar S4C yn siarad Cymraeg a reidio beics trydan!



## Dyffryn Caredig - Cludiant Cymunedol

Unwaith eto y cerbydau trydan cymunedol wedi bod yn brysur nôl ac ymlaen ar hyd a lled y dyffryn ac ymhellach, yn mynd a thrigolion i ddigwyddiadau, apwyntiadau a chyd-weithio'n agos gyda Ysgol Dyffryn Ogwen ar drafndiaeth ar gyfer gwersi. Gyda'r tywydd wedi gwella rhywfaint (ac ar ôl i Evan Thomas gael gwyliau'n lonawr!) mae'r teithiau dydd Sadwrn wedi ail-ddechrau - dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol neu galwch i fewn i'r swyddfa am bamffled i gael gweld ble fydd y bws trydan yn mynd nesa...

## Hwb Ogwen

Ers agor dwy flynedd yn ôl, mae Hwb Ogwen wedi cyflawni'r canlynol wrth helpu'r gymuned.



# YSGOL LLANLLECHID

## Dyweddiad

Hyfryd yw cael llongyfarch Miss Gwenlli Haf ar ei dyweddïad â Llyr. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Gavin Purcell, cogydd yr ysgol, ar ei brofedigaeth enfawr o gollu ei frawd yn sydyn, yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch Gavin.

## ESTYN

Gan i Ysgol Llanllechid dderbyn adroddiad eithriadol gan arolygwyr Estyn ym mis Mai llynedd, dychwelyd â wnaethant ar gyfer archwiliad thematig, gan edrych ar sut mae'r ysgol yn saernïo'r Cwricwlwm i Gymru. Llongyfarchiadau i bawb!

## Estyniad Ysgol Llanllechid

Edrychwn ymlaen at weld estyniad Ysgol Llanllechid yn cael ei gwblhau. Ymysg pob math o welliannau, bydd yr ysgol yn derbyn dau ddsbarth newydd. Bydd hyn o gymorth mawr i bawb, gan fod gofod yn eithaf prin yma ar hyn o bryd!

## Asda

Diolch i bawb am gefnogi ymgyrch Asda. Derbyniwyd £248.38 i'n hysgol. Diolch i bawb!

## Antur Waunfawr

Diolch i'r Grwp Eco am drefnu ymgyrch casglu dillad ail-law, ac i bawb am eu cyfraniadau i'r bin glas wrth y brif fynedfa. Derbyniwyd £84 yn sgil hyn gan Antur Waunfawr. Llauer iawn o ddiolch.

## Addysg Awyr Agored – Cynllun Tirlun

Mae'r ysgol wrth ei bodd yn mynd â'r plantos allan i'r gymuned leol. Yn wir, mae hyn yn rhan naturiol o'n gwedd ni erbyn hyn! Rhai o'n hoff deithiau yw mynd am dro i ben Moel Wnion, Moel Faban, Tynal Tywyll, Parc Moch, Lon Bach Odro, Cae Boncs, Llyn Idwal a'r Ffordd Rufeinig ac ati. Rydym hefyd yn ffodus o dro i dro yn cael pobl o'r gymuned yn ein harwain e.e dysgwyd llauer am lethrau'r Carneddau, pan ddaeth leuan Wyn i'n harwain dro



## Gwyl Ddewi

Cafwyd dros awr o adloniant yn ystod ein cyngerdd Gŵyl Ddewi ar y dydd Gwener olaf cyn yr hanner tymor. O'r plant bach yn y dosbarth Meithrin, i'r disgyblion hynaf – cafwyd gwledd yn wir! Diolch i chi rieni, a chyfeillion yr ysgol am ddod draw i'n cefnogi. Braf oedd gweld y neuadd dan ei sang, a phawb yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r holl waith caled. Hyfryd hefyd oedd gweld yr offerynwyr, sef aelodau o'n cerddorfa, yn cael cyfle i'n diddanu. Diolch i chi blant: Elsi ac Iwan – corn; Elin – ffidil; Taliesin – soddgrwth; Eban – corn; Matti – piano a Seirian ar y drymiau. Cyn i bawb gael cyfle i ganu'r anthem, cafwyd cyfle i ganu'r hen glasur: Gwnewch Bopeth yn Gymraeg! Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb!



yn ôl. Edrychwn ymlaen at fwy o gyfleoedd i wneud hyn! Does ryfedd felly i ni gael gwahoddiad gan gwmni ffilmio i gymryd rhan mewn prosiect ar Addysg Awyr Agored. Diolch i Mrs Llinos Wilson, Mr Stephen Jones a Miss Gwenlli Haf am fod mor barod i arddangos eu gwersi cyffrous. Roedd y dyn camera, Trystan Jones, wedi dotio at yr hyn â welodd, a dywedodd, "Am groeso! Pleser oedd dod i'r ysgol er mwyn ffilmio gweithgareddau Tirlun. Staff croesawgar iawn, a disgyblion hynod gwrtais a pharchus!"

Edrychwch allan am yr adnodd hwn; sy'n gyforiog o syniadau. Os oes gennych ddi-ddordeb, ewch i'r wefan: Tirlun.Cymru Mae'n adnodd gwerth chweil i unrhyw ysgol, a braint oedd cael bod yn rhan o'r creu. Diolch hefyd i Meinir Jones am gydgordio'r cyfan oll.

## Eisteddfod yr Urdd

Edrychwn ymlaen at Eisteddfod

Cylch yr Urdd, a gynhelir ar Fawrth 15fed ac, ar hyn o bryd, rydym yn brysur yn paratoi, ac yn ymarfer ar gyfer gwahanol gystadlaethau. Diolch yn fawr i deulu Eban, Efa Rhos, Eos ac Eila Hughes am wirfoddoli i drefnu'r bwyd yn y ffretur ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Diolch Geraint a Meinir am fod mor barod i'n cynorthwyo.

## Bingo Pasg

Diolch i Mrs Ceri Evans ac aelodau eraill y Cyfeillion am drefnu'r Bingo Pasg i ni. Cofiwch y dyddiad: Ebrill 3ydd yn y Clwb Criced am 6.30pm. Dewch yn llw!

## Gweithdy Goleuni

Braf iawn i blant bach dosbarth Miss Beardsmore oedd cael cymryd rhan mewn gweithdy arbennig oedd yn llawn gwybodaeth am yr oes cyn bod trydan yn bodoli. Felly, kannwyll frwyn oedd hi, canhwylau cwyr a lampau olew. Roedd y plant yn

llawn diddordeb, ac yn rhyfeddu at sut oedd pethau yn yr oes â fu!

## Diogelwch ar y We

Diolch yn fawr i PC Andy Jackson am ddod yma i addysgu'r disgyblion ynglŷn â'r peryglon wrth fynd ar y we. Gwersi pwysig fydd yn aros hefo'r disgyblion am weddill eu bywydau, gobeithio.

## Rownd a Rownd

Wel dyna hwyl gafodd dosbarthiadau Mrs Wilson a Miss Gwenlli Haf wrth ymweld â set Rownd a Rownd yn Llangefni. Diolch o galon i Carol a Lleucu am dywys ein disgyblion o amgylch y set. Pawb wrth eu boddau, a rhaid dweud mai Rownd a Rownd yw hoff raglen ein disgyblion hynaf! Diolch o galon!

## Masnach Deg

Diolch i fyfyrwyr o Brifysgol Bangor am ddod draw i gynnal gweithdy ar Fasnach Deg gyda'r plant hynaf. Gwersi pwysig.

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)

**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)

**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

### Rhodd Garedig

Llawer iawn o ddiolch i Eleanor Ellis Williams am roi rhodd arbennig yn anrheg i'r ysgol. Enillodd Eleanor wobwr mewn cystadleuaeth ar raglen radio Aled Hughes ar BBC Radio Cymru, sef, Alexa! Diolch o waelod calon am feddwl amdanom. Pawb wedi gwirioni! Mae'r Alexa yn gwneud pob math o bethau, heblaw am wneud paned!! Diolch yn fawr.

### Sgaffaldiau Luke Mabon

Llawer iawn o ddiolch i Sgaffaldiau Luke Mabon (a Londis Bethesda - llun mis diwethaf) am noddï ein cit pêl-droed newydd. Dyma lun o Luke, sy'n gyn-ddisgybl i ni, yn cofio am ei 'hen' ysgol gynradd! Llawer iawn o ddiolch, a braf cael cysylltiad fel hyn gyda busnes lleol. Arbennig!



### Côr y Penrhyn

Llawer iawn o ddiolch i'r Côr am gyflwyno cloc llechen arbennig i'r ysgol, a chloc i Anti Sharon, ein gofalfraig. Mae'r cloc erbyn hyn wedi ei osod yn y neuadd gan Peter Jones, er mwyn i bawb ei weld! Diolch i Alun Davies am greu'r clociau arbennig. Campweithiau!



### Capel Shiloh Newydd

Oedfaon yn Shiloh am yr wythnosau nesa am 5 o'r gloch, oni nodir yn wahanol.

Mawrth 16: Philip Barnett, Swydd Efrog

Mawrth 23: Ellie Jones, Coed y Parc, Bethesda

Mawrth 30: Gwenda Richards, Caernarfon

Ebrill 6: Dr Ian Morris

Ebrill 13: Sul y Blodau Philip Barnett, Swydd Efrog

Ebrill 17: Dydd Iau Cablyd, Cymun Undebol, am 6 o'r gloch

Ebrill 20: Sul y Pasg, Alun Morton Thomas, Porthaethwy

Llongyfarchiadau i un o'r aelodau, sef Rhian Evans – Hill, Rhiwlas, a'r holl deulu, ar enedigaeth Gruffudd Twm i'w merch Heledd a Chris. Pob dymuniad da i'r teulu bach yn Trefnant, ger Ddinbych.

### Drws Agored

Cofiwch fod croeso cynnes yn Shiloh bob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch. Bydd holl arian ar y plat casglu yn mynd at elusennau lleol a chenedlaethol. Cyfle i gael sgwrs, paned a chynhesrwydd. Dewch i ymuno gyda ni.

## I hysbysebu yn Llais Ogwan

Cysylltwch â **Neville Hughes**  
(Ffôn 600853) nev\_hughes@btinternet.com

**JR SGAFFALDIAU Cyf.**  
**SCAFFOLDING Ltd. JR**

**YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NE**  
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

**Ffôn/Ffacs: 01248 601754**  
**07770 568743 (symudol)**



# CHWILAIR



## LLYFRAU'R HEN DESTAMENT

A	A	W	F	H	R	E	S	E	C	I	E	L	I	E	J	L	C	M	B
V	B	H	X	J	E	R	E	M	E	I	A	J	U	I	S	V	S	H	E
I	M	G	V	H	R	M	D	M	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N
A	P	I	R	E	M	U	N	A	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q
Z	G	R	S	H	C	U	T	M	W	L	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U
T	F	D	E	X	U	P	W	H	R	H	A	C	Q	H	W	E	H	O	Y
E	E	G	F	E	O	M	H	E	P	T	T	C	C	B	B	C	U	U	J
P	L	T	F	M	I	V	V	D	C	B	B	F	H	R	F	O	G	J	V
I	I	R	A	R	X	I	M	H	T	T	O	S	K	I	O	P	W	R	C
M	K	C	N	B	O	R	C	X	V	D	R	Y	H	S	T	M	R	E	F
Y	J	D	E	Z	H	B	C	W	A	O	S	C	S	R	A	I	X	N	I
L	X	J	I	J	M	B	W	N	R	T	E	I	X	M	D	X	K	F	U
P	C	Q	A	Y	O	I	R	L	Y	F	S	E	R	Z	Q	R	O	C	T
D	G	W	S	L	Z	A	E	B	W	E	E	A	J	K	J	C	L	N	L
R	V	O	G	J	L	P	W	P	N	G	S	O	W	J	L	J	Q	U	L
F	S	V	T	A	A	X	E	E	R	U	G	H	S	E	L	Z	E	A	F
X	I	W	G	R	T	Z	G	H	A	K	V	A	I	G	B	N	K	A	D
S	I	K	S	O	G	D	H	B	B	S	I	N	U	R	O	X	A	G	X
R	A	E	E	N	O	I	B	E	H	R	A	I	D	E	K	K	D	A	N
T	O	G	W	B	M	B	J	R	F	D	U	N	K	B	Z	E	B	B	C

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg LLYFR YR HEN DESTAMENT i'w darganfod . Mae un clw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi dddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28 Mawrth . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Chwefror:** Blodwen Parry; Catherine Gashe; Grace Thomas; Iola Rees Hughes; Jane Ellen Lewis; Lily Roberts; Margaret Williams; Mary Ann Griffiths; Miriam Jane Jones; Myfanwy Davies; Sarah Owen.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Doris Shaw, Bethesda; Judith Hughes, Llangoed; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Carys Parry, Caerhun.

**Enillydd Rhagfyr oedd** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda.



## Y Fulfran (y bilidowcar)

Y tro hwn, y fulfran sy'n cael sylw. Dyma'r enw a oedd yn arfer cael ei ddefnyddio yn yr ardal hon, ond daeth yr enw bilidowcar yn fwy cyffredin ers tro. Daw'r enw 'bilidowcar' o gyfuno'r enw personol Billy a'r gair 'dowcar' sef un sy'n dowcio, yn mynd o dan y dŵr. Enw arall arno yw llanc Llandudno. Mae dwy ddamcaniaeth ynghylch ystyr yr enw hwn. Mae'r naill yn cyfeirio at y ffordd y bydd yr adar hyn yn aros yn llonydd yn un rhes, fel rhes o hen lanciau'n eistedd efo'i gilydd ar rodfa'r môr. Mae'r llall yn cyfeirio at y ffordd y maent yn dal eu pennau'n ôl efo'u pigau at i fyny, fel hogiau ifanc y dref yn ymsythu'n orhyderus a chodi eu trwynau, 'yn llanciau' yng ngolwg hogiau'r wlad.

Fel y crëyr glas a glas y dorlan, mae'r fulfran yn rheng flaen yr helwyr pysgod. Mae'n medru plymio'n ddwfn a threulio hyd at 30 eiliad o dan y dŵr. Gan mai pysgod cymharol fach fedr y fulfran eu llyncu, mae llynnoedd ac afonydd yn gymaint o dynfa ag ydyw'r môr. Mae'r enwau Carreg y Fulfran yn Llyn Ogwen, Llech y Fulfran yn Llyn Padarn, a Chlogwyn y Fulfran ar lan Llyn Gwynant yn tystio i ymweliad yr adar

hyn â llynnoedd Eryri drwy'r canrifoedd.

Ran amlaf, ei hun y gwelir mulfran mewn afon neu lyn, ond ar dro daw haid fechan ohonynt os bydd sicrwydd bod digon o bysgod yn eu haros. Bydd afonydd cymharol fychan yn eu denu hefyd, a gwelais rai blynyddoedd yn ôl un yn plymio'n eiddgar am bryd o frithyll mân mewn pwll ar afon Gaseg rhwng Llyn Droellan a Phont Waun yn y Gerlan.

Os am weld haid niferus ohonynt mewn un lle, gellir ymweld â Chraig yr Aderyn uwchlaw afon Dysynni wrth ymyl Llanfihangel-y-pennant yn Nyffryn Dysynni gan fod ganddynt nythfa yno – y fwyaf yng Nghymru. Gan amlaf, o frigau a gwymon yr adeiledir y nyth, efo 3 neu 4 wy yn cael eu dodwy unwaith y flwyddyn. Yn lleol, mae'r cei a'r pier ym Mangor ynghyd ag Aberogwen gystal ag unman i wyllo mulfran yn plymio yn afon Menai, a golygfa arbennig yw gweld llusywen yn gwingo yn ei phig cyn diflannu i lawr ei chorn gwddw. Golygfa gyffredin yw gweld rhes o fulfrain yn llonydd efo'u hadenydd ar led i'w sychu yn yr haul, ac mae pyst pren yr hen lanfa yn Nhal y Foel

ger Brynsiencyn yn lle da i weld hynny. Maent yn gorfod gwneud hyn am nad yw eu hadenydd yn dal dŵr – yn wahanol i adar dŵr eraill sydd efo haenen o olew arbennig yn gorchuddio'u plu i'w cadw rhag i'r dŵr fynd i mewn drwyddynt a'u trymhau. Nodwedd arall yw eu cyflymder ar adain, ac mae'n werth eu gweld yn hedfan ar wib yn agos iawn at wyneb y dŵr heb wyro dim.



Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG iueanwyn01@gmail.com 01248 600297.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853) nev\_hughes@btinternet.com**

## C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caerdybi - Bae Cinnel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



**Bethesda 01248 600 045**

**bethesda@cljonesltd.co.uk**

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Dyddiadur Boreau Coffi

**22 Mawrth** – Capel Jerusalem - yn y Ffestri  
**12 Ebrill** – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen – Ffestri Jerusalem  
**10 Mai** – Cymorth Cristnogol – Ffestri Jerusalem



Ffestri Carmel,  
Llanllechid

## TE BACH

Dydd Llun,  
24 Mawrth  
2.30 – 4.00



FESTRI JERUSALEM

## Bore Coffi

Sadwrn,  
22 Mawrth  
Mynediad: £1.00  
Elw at y Capel



## Clwb Coffi Talybont

### FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Mawrth 24  
Ebrill 7 a 28

Croeso cynnes i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Mawrth 25

Ebrill 8, 22 a 29

am 6.45yh.  
Croeso i bawb



FESTRI JERUSALEM

Bore Coffi  
Eisteddfod  
Dyffryn  
Ogwen



Sadwrn 12 Ebrill

10.00 - 12.00  
Mynediad - £1.00

## YSGOL TREGARTH

### Perfformiad 'Arwyr Iaith'

Yn ystod y mis, drwy weithdai drama a gweithgareddau ymarferol, mae dosbarth Yr Elen wedi archwilio hanes y Gymraeg a'i phwysigrwydd fel iaith fyw heddiw. Roedd yn wych gweld eu brwdfrydedd a'u talent yn dod i'r amlwg ar y llwyfan. Cawsom y fraint o groesawu teuluoedd y dosbarth i weld perfformiad arbennig o'r hyn roeddent wedi ddysgu. Roedd y dosbarth wir wedi mwynhau ac yn sicr wedi dangos balchder yn eu Cymreictod. Diolch yn fawr i Menter Iaith am eu cefnogaeth ac i Angharad Llwyd am ei gwaith ardderchog gyda'r dosbarth drwy'r wythnos.



### Ymweliad

Diolch i rieni Elodie o flwyddyn 1 a ddaeth i'r dosbarth i sgwrsio am eu hymweliad diweddar â Costa Rica. Yn dilyn clywed Elodie yn sôn

am y gwyliau, penderfynodd y plant eu bod eisieu dysgu mwy am y wlad ac felly dyma ydi thema'r dosbarth dros yr wythnosau diwethaf. Diolch i Sophie a Tim am fore diddorol iawn.

### Dydd Miwsig Cymru

Roedd pawb wrth eu boddau ar Ddydd Miwsig Cymru. Roedd digon o gyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth Cymraeg gan lu o artistiaid a bandiau Cymraeg a chafodd y plant gyfle i werthuso'r caneuon a dod o hyd i'w hoff gân!

### Siaradwr Cymraeg Yr Wythnos

Er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol rydym wedi croesawu Y Criw Cymraeg i ddsbarth Yr Aran. Bydd un plentyn yn cael ei ddewis fel Siaradwr Cymraeg yr wythnos gan y Criw Cymraeg am eu hymdrech yn ystod yr wythnos. Rydym yn edrych ymlaen at weld pwy fydd yn derbyn y tystysgrif nesaf!

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459) henbarc13@gmail.com

### Clwb Hanes Rachub

'Merched y Streic' gan Dr. John Ll. Williams.

Roedd y Clwb Criced dan ei sangl Pam? Wel John Llew oedd yno'n darlithio am ferched y Streic Fawr!

Er bod 50% o'r gymdeithas chwaryllyddol yn ferched, am hynt a helynt bywydau'r dynion y cofnodwyd fwyaf yn y llyfrau hanes rhwng 1900 a 1903. Ond wrth gwrs, roedd merched gweithgar, gwydn, tlawd, gofalgar yn brysur yn edrych ar ôl eu teuluoedd, ac yn gweithio ddydd ar ôl dydd er mwyn ceisio cadw dau ben llinyn ynghyd, ond ychydig a wyddwn amdanynt.

Gwnaeth J.Ll.W ymchwil manwl iawn i fywydau ac amgylchiadau llawer o gymeriadau benywaidd

Bethesda yn y cyfnod dan sylw.

Os oedd cyflogau'r dynion yn ddychrynlyd o isel, roedd cyflogau'r merched yn waeth o lawer, ac roedd hyn yn newyddion drwg i ferched di-briod a gwragedd gweddw; roedd gan nifer o'r gweddwon lond tŷ o blant, ac roedd bywyd yn ddifrifol o anodd iddynt. Byddai llawer o'r tlodion hyn yn golchi, smwddio, atgyweirio a gwneud dillad i bobol oedd yn fwy cefnog na nhw, a byddai rhai yn cael gwaith mewn siopau a thafarndai, neu fod yn forynion i ficeriaid a gweinidogion. Roedd chwe gweithdy dillad yn yr ardal yn ogystal â saith gweithdy hetiau, felly mae'n debyg fod nifer o ferched yr ardal yn cael eu cyflogi yn y rhain. Er nad oedd llawer wedi eu hyfforddi'n gymwys, roedd nifer o ferched lleol yn athrawesau ac yn nyrsys - er bod cofnod o athrawesau uniaith Saesneg o lefydd fel Leeds a Crewe, hefyd,

wedi bod yn dysgu'r Cymry bach uniaith Gymraeg yn ein hysgolion lleol! Cofnodwyd yn y papur newydd 'Gwalia' fod cyngerdd ardderchog wedi ei gyflwyno gan blant Ysgol Glan Ogwen - cyngerdd uniaith Saesneg!

Ond roedd yna arwresau o fath gwahanol ym Methesda yn ystod cyfnod y Streic Fawr hefyd, sef Mary Ellen Parry a'i chôr merched anhygoel! Merched ieuainc di-briod oeddynt, â'u pryd ar godi arian i helpu tlodion yr ardal; buont ar sawl taith hir (tri mis ar y tro) o amgylch Prydain yn cynnal cyngherddau yn nhrefi Lerpwl, Manceinion, Wolverhampton, Birmingham, Salisbury, Gravesend (i enwi dim ond ychydig!), yn ogystal a mewn pentrefi bychain ar hyd a lled y wlad! Byddent yn gwneud tua £1000 o elw ar daith hir, a gwnaeth y côr safonol yma grynn enw iddo'i hun drwy Brydain. Adroddwyd dau englyn gwych am Mary Ellen Parry gan y Prifardd Ieuan Wyn yn ystod y cyfarfod.

Diolch yn fawr John, am

gampwaith o ddarlith! Gobeithiwn ei gweld ar wefan 'Hanes Dyffryn Ogwen' cyn bo hir! Diolch hefyd i Ieuan am yr englynion ac i Gwen Elis am Gyflwyno. Cofiwch am ein cyfarfod nesaf Mawrth 26ain pan fydd y naturiaethwr Ben Stammers yn trafod 'Byd Natur Lleol a Gwarchodfa Aberogwen'.

### Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod Mîs Chwefror ar Nos Iau, Chwefror 6ed. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cyngorydd Lowri Evans. Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r elusennau a gwnaeth cais am rhodd y flywyddyn yma. Dyma restr o'r elusennau a dderbynwyd rhodd eleni.

Llais Ogwan, Theatr Bara Caws, Clwb Criced a Bowlio Bethesda, Ambiwylans awyr, Cymdeithas hanes Dyffryn Ogwen, Clwb hanes Llanllechid, Carnifal Bethesda, Cronfa cyfle i bawb yr Urdd, Hwb Ogwen, Brownîs Nant Ffrancon, Cerebral Palsy Cymru, Hospis Dewi Sant, Ffermwyr Ifanc Bethesda.

## Capel Carmel

Ar ddiwedd mis Chwefror, cynhaliwyd Te Bach arall. Roedd y tywydd yn braf iawn ar y dydd Llun hwnnw, ar ôl adegau stormus iawn. Daeth nifer dda iawn i'r Ysgoldy a chan ei bod hi'n wyliau hanner tymor yr ysgolion, mi ddaeth Elsi a Beti hefo'u nain, Ann Tugwell, atom ni i gael te. Yn ystod yr eisteddiad, fe wnaeth y ddwy ganu caneuon am y gwanwyn, am Ddewi Sant, alaw werin gan Elsi, ac mi wnaeth Beti ganu 'Titw Tomos Las' a phawb yn ymuno yn y cytgan hefyd. Roedd clywed lleisiau'r genod yn codi calonnau pawb a oedd yno. Diolch i chi eich dwy! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Te Bach unwaith eto. Bydd y Te Bach nesaf yn cael ei gynnal bnawn Llun, 24 o Fawrth. Croeso cynnes i bawb.

### Gwasanaethau

(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)

Mawrth 23: Parchg. R. O. Jones.  
Mawrth 30: Parchg. Alan Spencer.  
Ebrill 06: Parchg. Dafydd Job.  
Ebrill 13: Parchg. Sara Roberts.  
Ebrill 20 (Pasg): Mr. D. Glyn Williams.

Ysgol Sul: 10.30yb.  
Clwb Dwylo Pysur: Nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB



Te Bach



Elsi a Beti

1969  
**M.HUGHES  
A'I FAB**  
**CONTRACTWYR TOI**  
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,  
Bethesda ☎ 600633  
☎ (symudol) 07702 583765  
mhughesandson@hotmail.com  
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED  
**A.G.L.**  
Lloriau  
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.  
Andrew G. Lomozik B.A.  
Ffôn: 01248 602117  
Symudol: 07835487909 

 Dilynwch Llais Ogwan ar X @Llais\_Ogwan

## Mary Jones

maryeds@hotmail.co.uk  
(07443 047642)

**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

## Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i'r cyfeillion a enwir isod a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:- Shirley Evans, Abercaseg; Thomas Jones, Bryn Bella; Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd; Gwyn Williams, Carneddi; Deila Davies, Tan y Gaer ac Elwyn Roberts, Rhos Ogwen.

## Cydymdeimlo

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch chwi Betty Roberts, Stryd y Dŵr, a Mr. a Mrs. Brian Jones, Carneddi, yn eich profedigaeth o golli eich brawd, Mr. John Emyr Jones yn Derby.

## Hen Nain

Llongyfarchiadau i Mrs. Jean Ogwen Jones, Coetmor ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

## Marw

Edna Wyn Jones  
Ar 15 Ionawr, yng Nghartref y Rhos, bu farw Edna Wyn Jones, gynt o Glan Ogwen, yn 95 mlwydd oed. Priod annwyl a ffyddlon y diweddar Henry, ac yn fam,

mam yng nghyfraith, nain a hen nain hoffus ac annwyl. Bu Edna yn trigo yng Nghartref y Rhos, Mallaeth ers sawl blwyddyn, ble cafodd ofal arbennig. Roedd Edna yn berson hoffus a pharod ei sgwrs gyda chroeso bob amser ar yr aelwyd yng Nglan Ogwen. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd lau, 13 Chwefror, yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor, gyda'r Parchedig Emllyn Williams a'r Parchedig Sara Roberts yn gwasanaethu, a Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

Gwilym Owen Williams  
Yn dawel yn ei gartref, 45 Glan Ogwen, ar 23 Ionawr, bu farw Gwilym Owen Williams yn 99 mlwydd oed. Priod y diweddar Sylvia a thad David, Marian, Gwyn, Lilian, Melfyn, Ellen a Derfel Wyn, a thaid, hen-daid a hen-hen-daid annwyl. Bu'n aelod selog o Eglwys Glanogwen hyd nes i afiechyd ei rwystro rhag mynychu ar y Sul. Y Parchedig Sara Roberts fu'n arwain y gwasanaeth angladdol ar ddydd Llun, 3 Mawrth yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor. Christine Edwards oedd yr organyddes. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch yn eich profedigaeth.

## Carnifal Bethesda

Cwta ddau fis eto a bydd yn ddiwrnod arbennig ym Methesda, sef, dydd Sadwrn y Carnifal. Mae'r pwyllgor eisoes wedi bod yn brysur dros y Nadolig efo taith Siôn Corn a gwahanol achlysuron codi arian. Mae angen teulu brenhinol ar y Carnifal wrth gwrs ac ar nos Sul yn fyw ar y gweplyfr tynnwyd yr enwau canlynol i gynrhycholi'r ardal.

Brenin – Maccsen Elis-Williams  
Tywysog – Noah Mildoon  
Brenhines – Phoebe Shaw  
Tywysoges – Cali Mildoon

Pob hwyl i chi gyda'ch dyletswyddau a chofiwch pawb am ddiwrnod Carnifal Bethesda ar Fai 17eg

Sarah Winifred Parry  
Yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Ionawr bu farw Sarah Winifred Parry (Sally Glangors) o Fferm Cilfoden, yn 83 mlwydd oed. Cymar y diweddar Emyr a mam garedig i Gareth, Glenys, David a Geraint ac yn fam yng nghyfraith, nain a hen-nain annwyl a hoffus. Bu'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd am flynyddoedd, yn glanhau Ward y Plant yn bennaf. Bu'r gwasanaeth angladdol ar fore Sadwrn, 22 Chwefror yn Amlogsgfa Bangor, ble daeth tyrfa fawr i ffarwelio â Sally. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch fel teulu.

Leonard Lloyd Williams  
Ar 30 Ionawr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Leonard Lloyd Williams,

Grisiau Cochion, yn 79 oed. Priod annwyl Anthea, tad arbennig i Nia, Delyth a Dylan, tad yng nghyfraith i Sarah, Phil ac Octavia. Roedd hefyd yn daid hoffus i Emllyn, Lois a Tryfan, a hen-daid i William. Diwrnod ei angladd, a gynhaliwyd yn Amlogsgfa Bangor gyda Mr. Dyfan Roberts yn arwain, oedd dydd Mercher, 5 Mawrth. Pob cydymdeimlad i'r teulu oll.

## Diolchiadau

Dymuna teulu'r diweddar Richard Dilwyn Griffiths (Brains) ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau a negeseuon caredig. Bydd Dilwyn yn sicr byth yn angof. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at elusen Marie Curie.



## Eglwys Crist, Glanogwen

### Amlenni Rhodd

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

### Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb syn dioddef mewn unrhyw fodd.

Da yw deall fod ein ficer, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, yn gwella ac yn edrych ymlaen i ddod yn ol i gynnal gwasanaethau. Gobeithiwn ei weld yn holliach yn fuan.

### Gwasanaethau Eglwys Crist

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore –

Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Hyd nes y Pasg cynhelir gwasanaethau ar y Suliau cyntaf a'r trydydd yn y mis yn unig, am 11yb fel arfer.

Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

### Manylion cyswllt

Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981. Mae'n diolch fel eglwysi Bro Ogwen yn ddiffuant iawn i Sara, sy'n gweithio'n galed iawn i lenwi pob bwlch yn ystod anhwylder ein ficer.

### Dyfodol Yr Eglwys

Mae cronfa'r Apel yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa Gofundme yn dal i fynd, lle mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol. Neu beth am feddwl am drefnu rhyw achlysur i godi arian – mae pob cyfraniad yn help. Diolch o galon i bawb,



# LLYFRGELL Y PETHA



Oeddech chi'n gwybod mai dim ond am gyfanswm o 10 munud yn ei oes y mae'r dril cyffredin yn cael ei ddefnyddio? Ydy hi'n gwneud mwy o synnwy'r i allu rhentu dril pan mae angen, yn hytrach na thalu am un fydd yn cymryd lle yn eich cartref am flynyddoedd?

Dyma'r meddylfryd y tu ôl i Lyfrgell y Petha – llyfrgell fenthyca o bethau wedi'u lleoli yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen sy'n edrych i feithrin diwylliant o rannu a chynaliadwyedd yn ein cymuned.

Mae Partneriaeth Ogwen, Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Gwynedd a Benthyc Cymru yn gyffrous iawn i ddathlu'r prosiect hwn, a lansiwyd ar 4ydd Mawrth gyda grwpiau o ysgolion cynradd lleol yn dod i lawr i'r llyfrgell i ddysgu am y prosiect ac i roi syniadau am yr hyn yr hoffent fod ar gael i'w fenthyg.

Yn ogystal â theganau a gemau

plant, sydd ar gael am ddim, mae yna ddetholiad o nwyddau trydanol gan gynnwys golchwr pŵer, dadleithydd, glanhawr carpedi, trimiwr gwrychoedd a hyd yn oed peiriant gwneud hufen iâ! Gall pobl hefyd rentu gazebo a chyflenwadau garddio. Byddwn yn ychwanegu at y casgliad wrth i ni symud ymlaen, gyda bwrdd padlo ar ei sefyll a gemau awyr agored ar gyfer y gwanwyn a'r haf.

Mae Adra hefyd wedi rhoi amrywiaeth o offer trydanol, a fydd ar gael dros y misoedd nesaf.

Mae'n rhad ac am ddim i greu cyfrif, felly ewch draw i <https://pethapesda.myturn.com/library/> i gofrestru a gweld sut y gall eich Llyfrgell y Petha leol arbed arian i chi a gwneud ein dyffryn yn fwy cynaliadwy.



## PETHA

LLYFRGELL PETHAU : A LIBRARY OF THINGS

**PAID PRYNU, BENTHYG!**  
ARBED ARIAN, ARBED LLE, ARBED CARBON

### 1 SUT MAE'N GWEITHIO

Creu cyfrif am ddim  
[pethapesda.myturn.com/library/](https://pethapesda.myturn.com/library/)

### 2 ARCHEBWCH EITEMAU

**CASGLU A DYCHWELYO I LYFRGELL GYMUNEDOL DYFFRYN OGWEN**

**LLYFRGELL GYMUNEDOL DYFFRYN OGWEN**  
**FFORDD COETMOR, BETHESDA LL57 3NL**

### 3

**ORAU AGOR**  
Lun - 14:00-18:00  
Merwrth - 10:00-12:00  
Merchwr - Ar Gof  
Iau - 10:00 - 12:00 & 14:00-17:00  
Gwener - 14:00-17:00  
Sadwrn - 10:00-12:00  
Sul - Ar Gof

## Yr Eglwys Unedig

### Oedfaon

Yn ystod mis Chwefror, cawsom wasanaethau hyfryd o dan arweiniad Y Parchedig Eric Jones, Y Parchedig Nerys Griffiths, Mrs Ceri Dart, (yn absenoldeb Mr Dafydd Iwan oherwydd gwaeledd), a'r Parchedig Olaf Davies. Diolch yn fawr iddynt oll.

### Cofion

Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion gorau at yr aelodau a chyfeillion hynny sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon oherwydd llesgedd neu amgylchiadau eraill. Gobeithiwn y daw'r gwanwyn â gobaith

newydd i bob un sy'n dioddef mewn unrhyw ffordd. Braff oedd cael croesawu Alwenna i'r Pwyllgor Blaenoriaid wedi cyfnod pur hir o salwch.

### Y Gymdeithas

Clywyd ambell gŵyn am effaith yr oerni ar gric'mala wrth inni ymlwybro tuag at y Ffestri heno. Mor anodd yw gadael gwres y tŷ ar noson rewlyd ond, bobl annwyl, y golled fuasem ni wedi'i chael o beidio â throï allan i wrando ar sgwrs Mary Eds!

Ac fel y dywedodd Neville, y Cadeirydd, "Dydi cyflwyno Mary ddim yn anodd; mae pawb yn ei hadnabod ac mae'n ffrind inni i gyd."

'Iaith Pesda' oedd ei thestun

ond, serch ein bod yn pori yn ei cholofn fisol yn y Llais, a bod rhai wedi cael y pleser o wrando arni o'r blaen, fe ddaliodd ein sylw o'r dechrau tan y diwedd. Roedd rhyw ffresni o gwmpas cyflwyniad Mary, ac yn y ffordd rwydd y cynhwysai gyfraniadau'r gynulleidfa.

Mae iaith lafar y Dyffryn yn anhygoel o gyfoethog. Mae gennym ddywediadau lu yn tarddu o'r chwarel, a dwsinau o eiriau lliwgar i ddisgrifio troeon bywyd.

Y gamp fwyaf, yn yr oes ddigidol hon, yw eu harfer a'u trosglwyddo i'r to iau.

Diolchodd Nev i Mary am orig ddifyr iawn, ac aethom ymlaen â'r drafodaeth dros

baned a bisgedi. Diolch i Luned am fod yn gyfrifol am y lluniaeth ac i Ceri ac Angharad am eu cymorth. Diolch hefyd i Beryl a Joe am gynnig gwneud paned ar Noson Cwis Nia y mis nesaf. Edrychwn ymlaen yn arw.

### Cyhoeddiadau'r Sul

Mawrth 16: Mr Richard Morris Jones (10)  
Mawrth 23: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)  
Mawrth 30: Undebol yn Jerusalem o dan ofal y Gweinidog (10) **Cymun.**  
Ebrill 06: Y Parchedig Gwenda Richards (5)  
Ebrill 13: Mr Donald Pritchard (5)  
Croeso cynnes i bawb.

## Y Gerlan

**Caren Brown**

07789 916166

carenelaine@hotmail.com

### Caban Gerlan

#### Prosiect Caffi Trwsio Gerlan (dydd Sul y 30ain o Fawrth – 12-3yh)

Diolch i Mark Gahan, Cadeirydd Pwyllgor Caban Gerlan, mae'r Caban wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant i gynnal Caffi Trwsio rheolaidd yn y neuadd. Bydd hwn yn ofod i bobl ddod â'u heitemau i gael eu trwsio.

Y bwriad yw gwneud y Caffi Trwsio'n ddigwyddiad cymdeithasol trwy gael awyrgylch hamddenol gyda lluniaeth (coffi, te, byrbrydau ysgafn) ac annog pobl i aros a sgwrsio wrth aros, gan ein helpu i leihau unigedd yn y pentref, yn enwedig ymhlith yr henoed. Bydd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am leihau gwastraff a manteision amgylcheddol atgyweirio yn hytrach na thafu eitemau.

Drwy gynnal Caffi Trwsio byddwn yn.....

- Cynyddu sgiliau atgyweirio yn y gymuned a darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu sgiliau.
- Sefydlu Cyfnewidfa Dillad ochr yn ochr â'r sesiynau atgyweirio er mwyn ailddefnyddio ac ailgylchu dillad.
- Cyflwyno gweithdai uwchgylchu lle mae pobl yn dysgu sut i drawsnewid hen eitem neu eitem sydd wedi'i thorri'n rhywbeth newydd, megis troi hen bren yn ddodrefn neu ddarnau ffabrig yn fagiau.
- Trwsio eitemau sydd wedi torri yn lle eu tafu a helpu i ymestyn oes y cynnyrch. Mae eitemau y gellid eu tafu fel arall, fel electroneg, dillad, dodrefn a nwyddau cartref, yn cael eu dwyn yn ôl i gylchrediad ar ôl eu hatgyweirio.

Bydd Caban Gerlan yn cyflwyno'r prosiect hwn ar y cyd â Gofod Gwneud Bethesda, fel y gall y gofodau ddechrau gweithio mwy gyda'i gilydd.

Bydd y Caffi'n gyfle gwych i chi ddod a nwyddau i'w trwsio neu eu trawsnewid, dysgu sgiliau newydd a chymdeithasu. Mae hefyd yn gyfle gwych i unrhyw un sydd efo sgil arbennig roi eu hamser i drwsio a dysgu eraill.

## Cig moch, selsig a wyau ffresh

Os yda chi'n mwynhau brecwast traddodiadol o facwn, selsig ac wy ac eisiau prynu cig ac wyau lleol o safon uchel, edrychwch dim pellach na Gareth Jones, Fferm Tai'r Cae. Mae Gareth yn ffermio yn Tan Garth, Gerlan ac mae ei anifeiliaid yn cael crwydro'r caeau yno'n hapus. Bydd

Gareth yn gwerthu ei gynnyrch ym maes parcio Clwb Pêl Droed Bethesda bob dydd Sadwrn o 9yb - 2yh. Mae pecynnau o 8 o selsig yn gwerthu am £4 ac wyau yn £2.50 am hanner dwsin. Dewch draw i gefnogi busnes lleol a dewch ag arian parod efo chi. Dyma lun o Nansi'n helpu ei thad ar y fferm. Mae'n bosib cysylltu gyda Gareth ar 07429636270.



Beth sydd yna i'w golli? Dewch draw i'r Caffi Trwsio cyntaf yn Caban Gerlan **dydd Sul y 30ain o Fawrth (12-3)** i weld beth sydd yn digwydd ac i gael paned. Byddwn wedyn yn cynnal Caffi Trwsio ar y dydd Sul olaf pob mis. Cadwch olwg allan am fwy o fanylion ar y gwefannau cymdeithasol neu cysylltwch gyda Caren Brown ar 07789916166 am sgwrs a mwy o fanylion. Hoffwn ddiolch yn fawr i Gronfa Gylchol Menter Môn am y grant i gychwyn y prosiect cyffrous yma'n Y Caban.

### Penblwydd hapus arbennig

Dwi'n siŵr y bydd dathlu mawr yn Yr Ardd Fawr ar Fawrth y 5ed wrth i Richard Ogwan Jones droi'n 70. Gobeithio y byddi di'n cael blwyddyn o ddatlu a theithiau difyr yn y camper van Richard. Penblwydd hapus iawn i ti gan y teulu i gyd a ffrindiau lu.

Penblwydd hapus arbennig iawn i Nia Hywyn Tantreflus oedd yn 40 ar y 18fed o Chwefror. Mae'n amlwg o'r lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol dy fod wedi cael amser gwych yn dathlu efo teulu a ffrindiau ac wedi mwynhau pob eiliad.

## HWYL Y PASG

### Dydd Sul y 13eg o Ebrill, bydd

Pwyllgor Y Caban yn cynnal digwyddiad Hwyl y Pasg i deuluoedd yn y neuadd rhwng 1 a 3 o'r gloch. Bydd hwn yn gyfle i'r pentref ddod at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog megis celf a chreffft, cael paned a chwilio am lot o siocled!

Felly dewch draw atom ni i'r Caban rhwng **1 a 3 o'r gloch** i fwynhau.

Bydd mwy o fanylion i ddilyn felly cadwch olwg allan ar y gwefannau cymdeithasol.

Dilynwch ni ar Facebook!



**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw**

Symdol:  
07747 628650  
Ffôn: 01248 600995



**Ogwen**  
Adferiad Corfforol

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk  
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

Proffesiynol, diogel  
a chyfrinachol

**LLEDDFU POEN**

Cefn, cyhyrau, esgyrn,  
cymalau, a thensiwn cur pen

# Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn Cymeradwyo Cais Cyllid Cyhoeddus Zip World – Ond Mae Pryderon yn Parhau

Gan y Cynghorydd Beca Roberts, Tregarth a Mynydd Llandygai

Ym mis Ionawr 2025, gwerthwyd cwmni antur mawr Zip World i Dolphin Capital, cwmni ecwiti preifat, am £100 miliwn. Rŵan, er eu bod mewn cyfnod o newid sylweddol wrth drosglwyddo perchnogaeth, mae'r cwmni'n gwneud cais am £6.2 miliwn o arian cyhoeddus gan lywodraethau Cymru a'r DU drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB). Byddai hyn yn ychwanegol i'r buddsoddiad o £7 miliwn mae Zip World ei hun yn ei wneud mewn prosiectau gan gynnwys car cêbl a luge ym Mlaenau Ffestiniog, siglen enfawr yn Chwarel y Penrhyn ym Methesda, a gwasanaeth e-fws preifat yn cysylltu ei holl safleoedd.

Yr wythnos diwethaf, fe wnaeth yr NWEAB gymeradwyo amlinelliad prosiect cychwynnol Zip World, gan ganiatáu i'r cwmni symud ymlaen i gam nesaf y cynllunio. Cyn sicrhau unrhyw gyllid, mae'n rhaid i Zip World ddatblygu Cynllun Busnes Terfynol (FBP) cynhwysfawr, sy'n manylu ar sut y mae'n ymgysylltu'n ystyrion â'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddyn nhw. O ystyried hanes y cwmni o ymgynghori cyfyngedig â thrigolion lleol, bydd y cam nesaf hwn yn brawf allweddol a all y prosiect sicrhau manteision go iawn i Ogledd Cymru ai peidio—y tu hwnt i ehangu Zip World ei hun yn unig.

## Cysylltu â'n cymunedau— neu ddiffyg cysylltu!

Un o'r pryderon mwyaf am y prosiect hwn ydi record wael Zip World o ymgysylltu â chymunedau lleol. Er eu bod wedi gweithio ar y cynnig hwn ers dwy flynedd, prin iawn fu'r ymgynghori go iawn, ac mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon, sydd, gan amlaf, heb dderbyn sylw dyledus. Wrth i Zip World symud i gam nesaf datblygiad y prosiect, mae'r alwad yn glir: mae'n rhaid sefydlu proses ymgysylltu gynhwysfawr, dryloyw a pharhaus i sicrhau bod lleisiau Bethesda, Blaenau Ffestiniog, a



chymunedau eraill sy'n cael eu heffeithio yn cael eu clywed a'u parchu.

## Rhwydwaith Trafnidiaeth Breifat ar draul Gwasanaethau Cyhoeddus?

Mae Zip World yn fframio ei rwydwaith arfaethedig o e-fysiau fel prosiect trafndiaeth cynaliadwy gwych. Fodd bynnag, mae pryder y gallai'r rhwydwaith preifat hwn danseilio, yn hytrach na hyrwyddo gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus presennol. Mae llawer o gymunedau lleol eisoes yn dioddef gyda gwasanaethau bysiau a threnau sy'n dirywio, gyda rhai pentrefi wedi eu hynysu'n llwyr. Yn hytrach na buddsoddi yn y seilwaith trafndiaeth presennol er budd pobl leol a thwrstiaid, mae'n bosib y byddai e-fws Zip World yn cludo ymwelwyr yn uniongyrchol o orsafoedd trê'n i'w hatyniadau - gan osgoi busnesau lleol a dargyfeirio teithwyr oddi wrth rwydweithiau cyhoeddus. Os bydd y newid hwn yn arwain at ostyngiad yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gallai waethygu'r toriadau i rwydweithiau lleol, gan niweidio'r union gymunedau y mae'r prosiect yn bwriadu eu cefnogi yn y pen draw.

## Swyddi vs Craffu: Dewis Ffug?

Yn ôl Zip World, un fantais allweddol i'r ehangu ydi creu swyddi. Mae'r cwmni'n honni y bydd y prosiectau newydd yn

creu 96 o swyddi, ac mae disgwyl i Zip World ddefnyddio'r ddadl hon i ddistewi unrhyw wrthwynebiad, gan bortredu'r sawl sy'n gwrthwynebu fel pobl sy'n erbyn rhagor o swyddi.

Fodd bynnag, ni ddylai creu swyddi fod yn rheswm ynddo'i hun ar gyfer bwrw ymlaen gydag unrhyw gynllun. Mae'n hanfodol cwestiynu pa fath o swyddi fydd y rhain—swyddi parhaol, llawn amser gyda chytundebau diogel, neu swyddi tymhorol, dim oriau nad ydyn nhw'n cynnig sefydlogrwydd? Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid inni bwysu a mesur yr enillion posibl yn erbyn y peryglon y mae'r prosiect yn ei beri i drafnidiaeth gyhoeddus a busnesau lleol. Os daw mewnlifiad o swyddi i Zip World ar draul colli swyddi mewn mannau eraill oherwydd diffyg gwasanaethau cyhoeddus, yna mae'r budd net yn llawer llai clir.

## Twristiaeth Gynaliadwy - neu Ehangu Corfforaethol?

Yn ôl Zip World, mae'r gwaith o ehangu'n rhan o gyd-destun 'twristiaeth gynaliadwy', ond ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu y bydd y prosiect hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor i ogledd Cymru. Mae mentrau llawr gwlad fel Antur Stiniog a Dyffryn Gwyrdd yn dangos beth ydi twristiaeth gynaliadwy go iawn — buddsoddiad sy'n aros o fewn yr economi leol yn hytrach na

chael ei echdynnu yn enw budd corfforaethol. Os ydi Zip World o ddifri am gynaliadwyedd, dylai weithio gyda darparwyr trafndiaeth lleol i wella gwasanaethau presennol yn hytrach na chreu system ar wahân sy'n bennaf yn troi'r dŵr i'w melin eu hunain.

Mae adroddiad diweddar gan dîm Ymchwil yr Economi Sylfaenol - "[6 Reasons Why Zip World Should not get £6.2 Million](#)" - yn amlygu pwysigrwydd dyrannu cyllid cyhoeddus gan sicrhau bod cyllid yn cefnogi prosiectau na fyddai'n digwydd fel arall. O ystyried adnoddau ariannol sylweddol Zip World yn dilyn y gwerthiant i Dolphin Capital, mae'n rhaid cwestiynu a ddylai arian cyhoeddus fynd tuag at ehangu corfforaethol yn hytrach na buddsoddiad cyhoeddus angenrheidiol.

## Y Ffordd Ymlaen

Ar ôl i Fwrdd Uchelgais y Gogledd gymeradwyo'r prosiectau, mae gan Zip World gyfle - a chyfrifoldeb - i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn uniongyrchol. Rhaid i'r cwmni ddatblygu proses ymgynghori dryloyw ac atebol, gan sicrhau bod ei brosiectau o fudd go iawn i'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddyn nhw. Rhaid iddyn nhw hefyd egluro natur y swyddi sy'n cael eu creu a gweithio tuag at integreiddio, yn hytrach na chystadlu yn erbyn seilwaith trafndiaeth presennol gogledd Cymru.

Dylid defnyddio cyllid cyhoeddus i adeiladu dyfodol sy'n blaenoriaethu llesiant cymunedol, datblygu cynaliadwy, a gwytnwch economaidd—nid i ehangu ymerodraeth twristiaeth breifat. Dwi'n edrych ymlaen at ymgynghoriadau Zip World sydd ar y gweill ar y cynllun hwn, a dwi'n annog cymunedau lleol i gymryd rhan. Mae pobl gogledd Cymru yn haeddu cael dweud eu dweud—ac mae'n bryd i'w lleisiau gael eu clywed.

# YSGOL BODFEURIG

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn fis o ymwelwyr ac ymweliadau yn Ysgol Bodfeurig! Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael gwahodd nifer o bobol i'r ysgol i'n dysgu am lawer o bethau gwahanol.

Mae wedi bod yn braf croesawu tair o athrawon cysylltiol atom o'r Brifysgol ym Mangor. Mae'r dair wedi ymgartrefu yn dda ac wrth eu boddau yn gweithio gyda plant yr ysgol.

## PC Andy

Diolch i PC Andy am ddychwelyd i'r ysgol i'n hatgoffa am bwysigrwydd cadw'n ddiogel


ar lein. Roedd PC Andy wrth ei fodd efo ymateb pob dosbarth a dysgodd pawb wersi pwysig iawn.

## Antur Amser

Diolch i Mei o Menter Iaith am ddod draw i gynnal gweithdy gyda blwyddyn 5 a 6. Roedd pawb wedi mwynhau darllen stori gyffrous cyn iddo ymweld ond roedd un problem fach...roedd diwedd y stori ar goll. Roedd pawb ar bigau drain erbyn iddo gyrraedd i gael clywed beth oedd yn digwydd ar ddiwedd y stori. Diolch Mei am fore gwych.

## Dŵr Cymru

Tro Catrin o Ddŵr Cymru oedd hi nesaf. Daeth acw i gynnal gwasanaeth gyda'r ysgol gyfan cyn cynnal gweithdy gyda dosbarth Ogwen. Cafodd pawb ddysgu llawer am gynefinoedd a llygredd dŵr a'r effaith roedd llygredd dŵr yn ei gael ar yr hyn sy'n byw yn y dŵr. Diolch Catrin!



## Archifdy

Y tymor yma mae dosbarth Ogwen wedi bod yn edrych ar gwreiddiau. Fel rhan o hyn daeth Gwyn Elis o'r Archifdy yng Nghaernarfon atom i'n dysgu am wreiddiau ein hardal leol. Cawsom edrych ar hen fapiau, cyfrifiad o'r pentref yn ogystal a llawer o hen luniau. Diolch o galon i Gwyn am baratoi yr adnoddau a dod draw i'r ysgol i'w dangos i ni.



## Am dro

Fel rhan arall o'n gwaith gwreiddiau cawsom fynd am dro o gwmpas Mynydd Llandegai. Roedd pawb wrth eu bodd yn crwydro gan ddysgu am enwau'r ardaloedd yn y pentref, y math o dai sydd wedi cael eu hadeiladu ac sut i fynd o un lle i'r llall! Yn ychwanegol cawsom fynd i ymweld â'r eglwys gan ddysgu am nodweddion eglwys. Aeth pawb ati i holi llawer o gwestiynau a dysgu llawer am yr eglwys. Diolch i'r Parchedig Sara Roberts ac i Mrs Janet Williams a Mr Stephen Thompson am roi eu amser i ni.

**SAMARIAID**

Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu  
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl  
7-11pm bob nos

**0808 164 0123**

Gwefan: [www.samariaidbangor.cymru](http://www.samariaidbangor.cymru)


## ADOLYGIAD

### Richard Jones Berwyn – Hanes Rhyfeddol un o Arloeswyr y Wladfa gan Graham Wynne Edwards (Llyfrau Hanes Byw 3)

Dyma gyfrol mewn cyfres newydd gan Wasg Carreg Gwalch a gyhoeddir ar ddydd Gŵyl Ddewi eleni. Cyfrol am Richard Jones Berwyn o Ddyffryn Ceiriog – Cymro pybyr, dylanwadol, a aned ym 1837 na wyddwn i ddim oll amdano tan i mi ymgartrefu ym Mhatagonia. Fel finna gynt felly, tybiaf mai prin yw'r Cymry sy'n gyfarwydd â hanes 'Berwyn' ac mae'r awdur Graham Edwards yn nodi mai'r diffyg ymwybyddiaeth hwnnw a'i sbardunodd ef i ddod â'r gyfrol i olau dydd, gan unioni'r cam a dod ag un o brif arloeswyr y Wladfa i'n sylw o'r diwedd. Ond er bod y llyfaleuadau wedi'u hanelu at hynt a helynt bywyd a gwaith Berwyn, mae'r gyfrol yn taflu goleuni ehangach ar hanes y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia a hynny, yn fy marn i, yw cryfder y gyfrol. Nid dim ond hanes un dyn a gawn – llwyddodd yr awdur hefyd i grynhoi hanes datblygiad y mudiad dros gyfnod cynnar ei bodolaeth yn sgil ei ymchwil i fywyd y gwron o Lyndyfrdwy a fabwysiadodd yr enw 'Berwyn' yn gynnar yn ei oes, er parch i'w fro enedigol. O ganlyniad, dyma gyfrol ddestlus sy'n haeddu ei lle ymhlith y casgliad amrywiol o lyfrau a gyhoeddwyd ers sefydlu'r Wladfa 160 mlynedd yn ôl.

Yn bedair ar ddeg oed, gwnaed Richard Jones, y sgolor ifanc disglair o

Ddyffryn Ceiriog, yn ddisgybl athro a'r flwyddyn ganlynol enillodd ysgoloriaeth i fynychu athrofa yn Llundain. O hynny ymlaen, ar hyd ei fywyd bu Berwyn yn gwasanaethu'r Gymraeg, ei gydwladwyr a'i gyd-Wladfawyr yng Nghymru ac ym Mhatagonia. Yn ogystal â'i waith fel addysgwyr, roedd hefyd yn hynafiaethydd a llenor, newyddiadurwr, golygydd, melinydd, cyfrifydd, cofrestrydd a threngolydd, swyddog 'maeldy', llyfrwerthwr, ceidwad porthladd, prif stiward llong, rheolwr swyddfa dywydd, seryddwr, ysgrifennydd



y Cyngor a'r Pwyllgor Gwladfaol, awdur Almanac Berwyn, blaenor capel a llawer mwy... a thad a llysdad i bymtheg o blant (cewch hanes difyr dull enwi ei blant yn y gyfrol!)

Mae'r gyfrol wedi'i rhannu'n ddwy, gyda threfn effeithiol iddi. Yn gyntaf ceir un ar ddeg o benodau cymen sy'n cyflwyno gwahanol agweddau ar hanes y Wladfa, a phrofiad neu gyfraniad Berwyn yn ganolbwynt iddynt.

Mae'r ysgrifennu'n gynnil, grefftus ac yn llawn gwybodaeth am y meysydd canlynol: gadael Cymru; yr ogofâu ym Mhorth Madryn; llong y Mimosa; afon Camwy; y baban cyntaf a aned yn y Wladfa; cyfraniadau Berwyn; ei gerddi a'i waith addysgu; y capeli; yr Indiaid; cysylltiad y Wladfa a llywodraeth yr Ariannin; gorlif 1899 a cholli llafur oes.

Mae ail hanner y gyfrol yn canolbwyntio ar y dyn ei hun, mewn wyth rhan sy'n manylu ar y canlynol: ei deulu yn Nyffryn

Ceiriog; maboed a llencyndod; Elizabeth ei wraig a'u plant; ei ddiddordeb mewn natur a seryddiaeth; ei gariad at fro ei febyd; rhagor o berthnasau yn dod i'r Wladfa; y bleidlais i ferched; ei farwolaeth. Testun llawenydd oedd gweld pennod am hanes gwraig Berwyn; ymchwiliodd yr awdur i gefndir Elizabeth Pritchard yng Nghymru cyn iddi hithau gamu ar y Mimosa ac er mai digon niwlog yw'r wybodaeth amdani bellach, da gweld bod ei chyfraniad hithau fel gwraig a mam yn cael ei anrhydeddu, yn ogystal â gwybodaeth am eu disgyfnyddion.

Wrth gwrs, mae cyfraniad Berwyn i fywyd y sefydliad wedi cael ei werthfawrogi yn y Wladfa erioed (mae strydoedd, capel, llyfrgell ac ysgol yn dwyn ei enw) ond yng Nghymru, aeth ei enw i'r cysgodion fel 'tae. Gŵyr llawer am Michael D. Jones, Lewis Jones, John Daniel Evans a'i geffyl Malacara, Eluned Morgan, Llwyd ap Iwan ac eraill ond ychydig a glywodd am Richard Jones, yr hogyn bach o Frynhyfryd, Glyndyfrdwy a ddaeth yn ŵr eithriadol ddawnus a gweithgar ac yn lladmerydd amlieithog ar ran y Cymry cyntaf ym Mhatagonia gerbron y llywodraeth ym Muenos Aires.

Ym mis Rhagfyr 2017, ganrif ers marwolaeth Richard Jones Berwyn, cefais y fraint o greu arddangosfa amdano ar gyfer cwrdd coffa dan ofal Cyngor Tref y Gaiman. Bryd hynny, roedd nifer ohonom yn gresynu na fyddai rhywun yn llunio bywgraffiad i Berwyn (a hyd yn oed gyfres o gyfrolau am arwyr y Wladfa). A dyma ni, o'r diwedd, gyfrol wych sy'n talu teyrnged i un o brif arweinwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Felly ar ran pobl y Wladfa, 'Diolch o galon, Graham'.

Esyllt Nest Roberts

## DAFYDD CADWALADR

CYNHYRCHION COEDLANNOL

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed Asiant system  
gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

## Londis BETHESDA

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa  
Bost Gwasanaeth personol  
gyda'r pwyslais ar y cwsmer  
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau  
trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan  
10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

## J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliâu Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.  
07770 900531 | 01248 600282  
jtempl Morris@btinternet.com

## CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau,  
bachau, twll llythyrau ac unedau  
gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB



☎ 01248 713 369  
neu 07813 455653

## Mark Davies

07447804110



Gwasanaethu  
Prawf Nwy  
Prawf Trydanol  
Prawf Tamprwydd  
Atgyweirio  
Siasis a Brecc

mark@mdcaravans.cymru



## Gareth Williams

TREFNYDD ANGLADDAU

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda



600763 neu 07708 008051  
GWASANAETH DYDD A NOS

## Glasiñfryn a Chaerhun

### Mair Griffiths

mairpenybryn@gmail.com  
01248 352966

### Bingo

Daeth nifer dda i'r Bingo cyntaf o'r flwyddyn newydd a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 21 Chwefror. Gwnaed elw o £275 tuag at Ward Padarn (Strôc), Ysbyty Eryri, trwy law Cyfeillion Ysbyty Eryri, diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 28 Mawrth am 7yh gyda'r elw yn mynd tuag at Cymdeithas Alzheimer's yn lleol. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad tuag at y noson. Dewch yn llw! Cawn nosweithiau hwyliog!

### Cylch Glasiñfryn

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cylch Glasiñfryn ar 12 Chwefror yn y Ganolfan. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr o ddigwyddiadau'r flwyddyn gan Jocelyn Bowen yr ysgrifennydd a'r adroddiad ariannol trwyadl gan Carole Singleton y trysorydd. Diolchodd y Cadeirydd Mair Griffiths i'r ddwy am ei gwaith rhagorol drwy'r flwyddyn. Trafodwyd y Rhaglen am y flwyddyn newydd gyda rhai o'r siaradwyr yn barod wedi cytuno i ddod i roi sgwrs i ni. Yn

dilyn y cyfarfod cafwyd paned a chacen wedi eu darparu gan Carole, Mair, Marian a Jocelyn. Braff oedd cael amser i gael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le! Mis nesaf byddwn yn cael Cawl a Chân amser cinio gyda'r aelodau yn dod a'r danteithion a bydd Marian Bryfdir yn gofalu am yr adloniant, edrychwn ymlaen! Sarah Flynn fydd ein gwestai ar 9 Ebrill yn siarad am ei phrofiadau yn gwneud gwaith gwirfoddol yng ngwledydd Affrica. Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2yp a mae croeso cynnes iawn i bawb ymuno.

### Profedigaeth

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Myra Williams, 56 Bro Infryn yn 85 oed, gwraig y diweddar Ken. Cynhelir yr angladd ar 2 Ebrill yn Amlogfa Bangor am 12 or gloch. Cydymdeimlwn â Diane a Jennifer y plant yn eu profedigaeth.

Yn frawychus o sydyn ar ddydd Mawrth 4 Mawrth bu farw Sian Forsyth, Bryn Dedwydd, Waen Wen yn 58 oed ar ôl gwaeledd byr iawn. Estynwn ein cydymdeimlad at Gwyn ei brawd ac Eirwen ei chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem. Bydd colled fawr iawn ar ei hol.



### Ymddeol

Pob dymuniad da i Alwen Gardener, Bryn Gwredog Ganol ar ei ymddeoliad yn gweithio yn Adran Gwaith a Phensiynau. Bu Alwen yn y swydd ers Chwefror 1975, sef 50 o flynyddoedd, dipyn o gamp! Ond ddim yn unig hynny, ni chollodd ddiwrnod o waith drwy salwch yn ystod y cyfnod bu'n gweithio yno! Gobeithio y cewch amser i ymlacio a mwynhau eich ymddeoliad Alwen wedi cymaint o flynyddoedd yn gweithio.

## YSGOL RHIWLAS

### Arolwg Estyn

Roedd wythnos gyntaf mis Chwefror yn un bwysig iawn i ni yn Ysgol Rhiwlas. Cawsom ein harolygiad gan Estyn. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth anfon negeseuon a dymuno'n dda i ni a'r plant. Rydym yn falch iawn o adrodd ein bod yn hapus iawn gyda chanlyniad yr arolygiad a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill.

### Masnach Deg

Daeth myfyrwyr o Brifysgol Bangor i gynnal sesiwn Masnach Deg gyda Chyfnod Allweddol 2 yn ddiweddar lle cawsant gyfle i ddysgu am bwysigrwydd prynu bwyd a gynhyrchir yn foesebol. Roedd hi'n fore hwyliog yn creu poster ac yn cymryd rhan mewn cwis. Heb os, roedd hi'n fore inni i gyd fyfyrto.

### Sesiynau Pêl-droed

Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn ddiweddar yn cael cymryd rhan mewn sesiynau

pêl-droed gyda Gethin o glwb pêl-droed Y Bala. Maen nhw wedi bod yn ymarfer llawer o sgiliau megis sgiliau cydweithio, driblo, pasio a sgiliau gôl-geidwad. Diolch, Gethin!

### Thema

Mae'r thema 'Perfformio' yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dod yn ei flaen yn wych, gyda'r plant wrth eu boddau yn cydweithio i greu setiau eu hunain a dysgu am wahanol elfennau o berfformio. Edrychwn ymlaen at wahodd teulu a ffrindiau'r ysgol i weld beth mae'r plant wedi bod yn gweithio arno.

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi symud ymlaen i thema newydd sef Pawennau, Crafangau a Wisgers. Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn edrych ar wahanol anifeiliaid a'u cynefinoedd, yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i rannu eu harbenigedd ac yn mynd allan i chwilio am y Gryffalo! Mwy am hyn eto!

## Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin



Rydym yn chwilio am unigolion i ymuno

â'r tîm dysgu Cymraeg i oedolion

Eisiau gwybod mwy am y cyfleodd sydd ar gael, ar-lein ac yn y gymuned yng Ngwynedd, Conwy a Môn?

Dewch i sesiwn wybodaeth i ddysgu mwy

Sesiwn wybodaeth:

25/03/25 - Prifysgol Bangor

Stryd y Deon

18:30 o'r gloch

neu 26/03/25 - ar-lein (Zoom)

19:00 o'r gloch

I gofrestru ac am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at: [sian.lewis@bangor.ac.uk](mailto:sian.lewis@bangor.ac.uk)  
Rheolwr Dysgu ac Addysgu

dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru  
Gogledd Orllewin  
North West

PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY



SGANIWCH I DDYSGU  
MWY AM EIN GWAITH

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich,  
Rhiwlas LL57 4HB  
annes.glynn@gmail.com  
(01248) 351015

## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

### Gwasanaethau'r Sul

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Mawrth 23** – Peter Cutts;

**Mawrth 30** – Dr. Huw Tegid Roberts;

**Ebrill 6** – Dr. Ian Davies;

**Ebrill 13** – Parch Aled Davies.

**Croeso cynnes i bawb.**

### Cipolwg gwahanol ar hanes

Cynhaliwyd noson ddifyr iawn yn y Neuadd nos Iau, Chwefror 27, yng nghwmni Martin Davies, 'Ardal' a Gareth Roberts o Fenter Fachwen pryd y cafwyd sgwrs gan Gareth a golwg ar nodweddion archeolegol yr ardal hon a thu hwnt hefyd ar ffurf ffilmau wedi cael eu tynnu gan Martin gyda drôn. Agoriad llygad go iawn a golwg o'r newydd ar nodweddion sy'n gyfarwydd inni ar ein stepen drws ein hunain a thu hwnt. Ymhlith yr olion lleol niferus roedd Castell, Maes Meddygon a Ffynnon Cegin Arthur. Un nodwedd sy'n peri penbleth i Gareth ydi'r 'sgwaryn', tua 5 x 5 medr o faint, sydd i'w weld ar gopa Moel Rhiwen. Awgrym mwy nag un yn y cyfarfod oedd mai olion dathliad jiwbil'r Frenhines Victoria yw hyn. Tybed oes gan unrhyw un o'n darllenwyr fwy o wybodaeth? Gadewch inni wybod! Noddwyd y noson yn y Neuadd gan LleCHI Llenni, Cyngor Gwynedd.

### Coffi a chacen

I unrhyw un sy'n gyfarwydd â'r prynhawniau Coffi a Chacen sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ar brynawniau Sadwrn yn y Neuadd dan ofal Sharon Griffith a Gill Walker mi fyddwch chi wrth eich boddau o glywed bod mwy ar eu ffordd! Mi fydd yr un nesaf ar brynawn Sadwrn, Mawrth 29 rhwng 1 a 3 o'r gloch y p'nawn; cofiwch hefyd y bydd Noson Bingo, digwyddiad arall sydd bob amser yn boblogaidd iawn, ar Ebrill 19 am 6 o'r gloch. Dewch yn llw!

## Dawnsio Llinell

Gobeithio eich bod i gyd yn teimlo'n heini ac yn llawn egnil! Does dim llawer o amser i fynd rŵan nes y bydd Mike Stringer yn arwain noson o Ddawnsio Llinell eto yn y Neuadd. Y dyddiad ydi nos Sadwrn, Ebrill 12 ac mi fydd y noson yn dechrau am 6.30 p.m. Pris y tocynnau fydd £3 i oedolion a £2 i blant. A bydd lluniaeth ysgafn ar gael pan fyddwch chi'n dechrau rhedeg allan o stêm! Roedd y noson yn un boblogaidd iawn y tro diwethaf y cafodd ei chynnal yn y pentref ac mae'n siŵr y bydd hi'n un i'w chofio eto'r tro yma.



**NEUADD BENTREF RHIWLAS**  
YN CYFLWYNO NOSON.

**DAWNSIO LLINELL**

SADWRN  
EBRILL 12  
6.30PM

DAN ARWEINIAD  
MIKE STRINGER

DRYSAU  
AR AGOR 6PM

£3 OEDOLION  
£2 PLANT (O DAN 18)  
LLUNIAETH/ BAR



## Merched y Wawr

Mwynhaodd yr aelodau sesiwn o osod blodau tymhorol dan arweiniad Carol Jones brynawn Mawrth, Chwefror 11, a gwerthfawrogi ei dawn. Un o'r gosodiadau hynny oedd gwobr y raffl a'r enillydd Iwcus oedd Carys Hughes, y llywydd. Carys a Jennifer oedd yn gyfrifol am y baned. Mae'r gangen yn cyfarfod yn 'stafell gymunedol y Neuadd ar yr ail b'nawn Mawrth yn y mis am 1.30 o'r gloch. Cofiwch fod croeso cynnes iawn i aelodau, hen a newydd, ymuno efo'r gangen.

## Clwb Rhiwen

Daeth yr aelodau ynghyd ar brynawn Mercher, Chwefror 19 yn y neuadd bentref. Pleser oedd croesawu ein gwraig gwadd Llio Jones o Age Cymru Gwynedd a Môn, sydd yn Gydlynedd Gofal preifat yng Ngwynedd. Cafwyd prynawn diddorol yn ei chwmmi wrth iddi siarad am ei gwaith a'r hyn sy'n cael ei gynnig o'r pencadlys yn y Bontnewydd. Kate ac Ann oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad. Yn ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 16 byddwn yn trafod un o draddodiadau'r Pasg. Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynawn Mercher o'r mis am 2yp yn Neuadd Bentref Rhiwlas.

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

### - Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd  
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

### Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	



Dilynwch Llais  
Ogwan ar X  
@Llais\_Ogwan

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)  
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Cartref newydd

Croeso i 3 Min Ogwen i Mrs Sylvia Griffiths sydd newydd symud i Dalybont o Hiracl. Bydd hi 'n siwr o deimlo'n gartrefol yma. Mae Wendy, ei merch, yn byw o fewn tafliad carreg iddi ym Mro Emrys; a'i dwy wyres, Chelsea a Becky a'u meibion bach, Theo a Nico, yng Nghae Gwigin a Dolhelyg. Byddant wrth eu bodd yn cael Nain wrth law.

Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith, Sylvia.

### Colli cymydog

Mae Jim Langley wedi gadael 7 Dolhelyg i fynd i fyw i Gonwy. Roedd yn gymydog cymeradwy iawn; un oedd yn barod ei gymwynas bob amser. Byddwn yn colli ei wên lydan a'i gyfarchiad siriol. Dymunwn bob dedwyddwch iddo yn ei gartref newydd.

### 'Nid oes Bradwr yn y tŷ hwn'

Diddorol iawn oedd darllen am brofiadau Elen Wyn ar y rhaglen deledu 'The Traitors' yn rhifyn Chwefror o'r 'Llais', ond yn fwy difyr byth i bobl Talybont oedd dysgu am ei gyrfa wedi iddi symud oddi yma. Mae hi wedi gwneud yn wych. 'Dwn i ddim beth fuasai gan Anti Bethan Griffiths i ddweud, pe buasi'n dal efo ni. Roedd hi'n gymaint o ffrindiau efo'r teulu, ac yn meddwl y byd o'r genod. Rydym yn dal i golli Rhian, Alys, Elen a Beca o Fro Emrys, ond yn falch iawn eu bod yn hapus ac yn gwneud yn dda.

### Triniaeth ysbyty

Ymwelodd Mrs Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ag Ysbyty Gwynedd i gael triniaeth lwyddiannus

## Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)  
Mawrth 23: Parchg. John Pritchard.  
(Bedydd)

Mawrth 30: Parchg. R. O. Jones.  
Ebrill 06: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.  
Ebrill 13: Parchg. Trefor Lewis.  
Ebrill 20, Y Pasg: Parchg. Anna Jane Evans.  
Ebrill 27: Oedfa i'w threfnu.  
Croeso cynnes i bawb.

### Storm

Bu raid gohirio'r oedfa ar Sul, 23 Chwefror gan mor arw oedd y storm o wynt a glaw. Diolch i'r Parchg. Dafydd Job am fod mor barod i dynnu'r Sul yn ôl ac addo dod atom ar 16 Mawrth.

### Trwsio

Diolch i Gareth am ail- osod llechen ar dô'r festri yn ddiweddar.

## Eglwys St Cross

**Cydymdeimlad:** Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Generys (Gen) Barker yn 91 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd ar Chwefror 12fed ar ôl gwaeledd byr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at ei theulu: ei gŵr, John, a'i meibion Stephen a David (64 Bro Emrys) a'u teuluoedd. Byddwn yn cofio Gen fel dynes hyfryd, bob amser yn gwenu ac yn llawn hwyl, a oedd yn dod gyda John yn rheolaidd i wasanaethau a gweithgareddau yn St Cross a'r Ysgoldy. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd yn Eglwys St Cross ddydd Gwener Mawrth 7fed dan ofal y Parchedig Aidan Coleman (cyn Ficer y plwyf - wedi ymddeol bellach) gyda Martin Brown, organydd Gadeirlan Bangor, wrth yr organ, ond efo cerddoriaeth Elvis yn ystod yr orymdaith i fewn i'r eglwys ar ddechrau'r gwasanaeth. Rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent St Cross.

### Gwasanaethau rheolaidd

Ar y Sul cyntaf a'r 3ydd Sul bob mis am 11 o'r gloch.

### Bore Coffi

Mae'r Bore Coffi misol yn cael ei gynnal o hyd yn yr Ysgoldy, ar y bore Mawrth cyntaf yn y mis. Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth parhaol ac yn mwynhau cwmni'r cyfeillion sy'n dod at eu gilydd. Bydd yr un nesaf ar Ebrill 1af.

Am fanylion pellach neu i holi am ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, bedydd, priodasau, angladdau neu gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: GarethLloyd@cinw.org.uk 01248 361521; neu'r Barchedig Sara Robrets, Caplan Bro: SaraRoberts@churchinwales.org 07967652981; neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson 07881 802882

ar ei llaw. Mae Enfys mor ddewr a di -lol; mor dwt a heini, 'fasai neb byth yn dychmygu ei bod bron â chyrraedd canol ei nawdegau. Serch bod ei golwg yn wael, 'fydd hi fawr o dro'n cerdded i waelod y pentref i ddal bws i Landudno, neu fentro hyd yn oed cyn belled â Betws y Coed a Chorwen.

Daliwch ati, Enfys. Rydan ni'n falch iawn bo chi wedi dod dros yr haint annifyr gawsoch ar y frest ychydig yn ôl. Mae'r Gwanwyn a'r tywydd cynhesach ar y ffordd, diolch byth!

### Brysiwch wella!

Nid yw Mrs. Liz Humphries, 6 Lôn Ddŵr, yn dda ei hiechyd er stalwm. Pan holais hi'r tro diwethaf, roedd hi'n disgwyl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Brysia wella, Liz. Mae dy ffrindiau a chymdogion i gyd yn cofio atat.

### Pentref taclusach

Wrth imi fynd am dro o gwmpas y pentref,

## Profedigaeth

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar Chwefror 8ed, bu farw Mrs Ann Tomlinson o Borthaethwy, gynt o Dregarth. Yr oedd newydd ddatlu ei phenblwydd yn 86 oed.

Roedd Ann yn ferch i Jack a Madge Bentley. Cafodd ei geni yn Nursery Cottage, yr Inclên, Llandegai, ar dir Stâd y Penrhyn, ond fe'i magwyd yn Hartwell Cottage, Talybont.

Roedd hi'n wraig i Jimmy, yn fam i Kevin, Susan, Kelly a'r diweddar Barry, ac yn Nain a Hen-nain gariadus.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Bangor ar Fawrth 11eg.

Cydymdeimlwn â'r teulu oll, a'i ffrindiau bore oes, yn eu colled fawr.





# Gair neu ddau

John Pritchard

## CAS GEN I

Mae'n gas gen i'r hyn y mae'r byd mawr a'i drafferthion yn ei ddeud amdanaf yn fy myd bach i fy hun.

Yr hyn a ddywed i ddechrau am f'anwybodaeth, yn benodol ynghylch rhai o'r anghydfodau a'r rhyfeloedd presennol. Mae cymhlethdod rhai o'r sefyllfaoedd yn ddigon i'n drysu. Mor anodd ydi hi i'r mwyafrif ohonom ddirnad beth yn union sy'n digwydd; pwy sydd ar fai; a pham fod llywodraethwyr yn dweud a gwneud pethau sy'n peryglu a dinistrio bywydau.

Yr hyn a ddywed wedyn am f'anghofrwydd. Mor rhwydd y llwydda'r cyfryngau i wneud i ni anghofio. Ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth, trodd y sylw at y rhyfela yn Wcráin. Hawdd deall hynny yn sgil trafodaethau Donald Trump â Vladimir Putin, a'r syrcau a'u dilynodd wrth i Emmanuel Macron a Keir Starmer a Volodymyr Zelenskyy droedio tua'r Tŷ Gwyn. Ond cymaint y canolbwyntio ar y trafodaethau diurddas hynny nes bod y cadoediad yn Gaza ac Israel – a hawliodd y penawdau am wythnosau – i bob pwrpas wedi peidio â bod yn newyddion. Mor rhwydd yr aeth yr argyfwng yno'n angof y dyddiau diwethaf hyn.

A'r hyn a ddywed hefyd am f'anwireddau. Yr un peth y medrwn ei ddeud am Trump ydi nad ydi o'n ceisio cuddio'i gymhellion dianrhydedd. Y peth pwysig iddo ydi elw. Trachwant, hunanoldeb a hunan glod sy'n ei gymell. O bosib mai rhyfreg wag ydi ei sôn am droi Gaza'n gyrchfan wyliau i'r cyfoethog ac am hawlio'r Ynys Las i'r America. Ond realiti dychrynlyd ydi'r bwriad i feddiannau'r mwynau

prin a gwerthfawr dan dir Wcráin. 'Dyw Trump ddim yn unigryw wrth gwrs: yr un gwanc i ymgyfoethogi ar draul gwledydd a phobloedd eraill fu'n cymell arweinwyr ac ymerodraethau ar hyd yr oesoedd. Yr hyn sy'n wahanol o bosib am Trump ydi nad ydi o'n ceisio cuddio'r ffaith mai elw sydd bwysig iddo. A'r elw hwnnw yn ail i un peth yn unig: ei glod a'i fawredd o'i hun.

Mor drist ydi gweld yr awenau yn nwylo pobl fel Trump a'i ddirprwy Vance a Musk, na phleidleisiodd neb drosto: pobl sy'n ymhyfrydu yn eu mileindra a'u grym. Nid eu bod yn gwbl wahanol, nac o reidrwydd yn waeth nag eraill sy'n arwain mewn rhannau eraill o'r byd. Does gan Trump ddim monopoli ar drachwant a chalon galedwch a difrawder a balchder. Ond yr hyn sy'n wirioneddol gas gen i ydi'r ffaith nad ydi anwireddau o'r fath yn perthyn yn unig i arweinwyr y gwledydd. Yr un ydi'r galon ddynol, ac er siom a chywilydd mi rydw i ond yn rhy dda'n adnabod anwireddau o'r fath ynof fi fy hun. Mae'n gas gen i gydnabod cyn lleied yr ydw i'n poeni ar adegau am drallod cymydog a châr. Mae'n gas gen i mor sydyn yr anghofiaf drafferthion pobl, ym mhellafoedd byd ac wrth fy nhraed.

Mae'n gwbl gyfreithlon i ni dynnu sylw at gelwyddau a rhagrith a hunanoldeb pobl fel Trump. Mae'n hanfodol ein bod yn eu beirniadu am eu holl fudrelwa. Ond fedraf fi ddim gwneud hynny heb gydnabod fy meiau a'm hanwireddau fy hunan; heb geisio maddeuant Duw amdanyn nhw; a heb geisio nerth a gras i fod yn well ac yn wahanol.

## Nyth y Gân



### Corddwyr

Ei hanes sydd mor hynod o feddwl  
Am fuddai'r hen gyfnod;  
Aeth honno i fythynnod  
I'nain wneud menyng yn nod.



### Ffos Y Mynydd

Tawelwch a llonyddwch  
Sy'n gafael ynom ni  
O glywed sŵn llifeiriant  
Y ffos a'i bwrlwm hi.

Dim ond ar fynydd ceir hi,  
I'r glust mor swynol yw  
Wrth redeg ac ymdroelli  
A'i lli yn gyffro byw.

Dŵr oer ar hyd y flwyddyn,  
A hwnnw'n glir o hyd,  
A thyfu wnâ a lledu  
Drwy fynd i'w harall fydd.

Mae'r hyfryd li a'r glannau  
Mor dlws, naturiol lân,  
A hyn i'r bardd a'r cerddor  
Sy'n denu cerdd a chân.

### Y Frwynen

Awel ysgafn a lusgodd, yna brwyn  
Y bryniau gynhyrfodd;  
O'r siawns a gadd fe ddawnsiodd  
Yn ei byd ac wrth ei bodd.

Dafydd Morris

# MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwyso Teiars  
Batris  
Tracio



01248 600619

moduronpandy@yahoo.com

www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 16eg Ionawr yn rhithiol dros Zoom.

## Biniau baw ci

Ar ôl misoedd o gyfathrebu gyda Chyngor Gwynedd, derbyniwyd ymateb i'n cais am finiau newydd. Adroddwyd fod y palmant yn gul ar Bont Penrala, ac felly byddai bin yma yn gallu achosi rhwystr a pherygl i gerddwyr. Cadarnhawyd y bydd Cyngor Gwynedd yn gosod bin amlwrpas ger y cysgodfan bws yn Sling. Nodwyd hefyd bydd y Tîm Tacluso yn adleoli'r bin sydd ar Lôn Hermon (ar bostyn trydan) a'i symud at bostyn arwydd ar gyffordd Lôn Hermon a Llwybr Main.

## Biniau halen

Nodwyd fod y Cyngor am holi am y bin halen yng ngwaelod Ffordd Tanrhiw, dim un wedi bod yno ers blyneddod. Cadarnhawyd bydd y Clerc yn holi cymdeithas tai Adra am fin halen i stad newydd Cae'r Gors. Cytunwyd bydd y Cyngorwyr yn gwirio biniau yn ei hardal nhw, ac yn adrodd i'r Clerc, os oes angen. Os ydych chi angen adrodd am finiau

halen yn eich ardal chi, yno rhowch wybod i Gyngor Gwynedd drwy'r ddolen: [www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Tywydd-Garw/Graeanu-a-biniau-halen.aspx](http://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Tywydd-Garw/Graeanu-a-biniau-halen.aspx) <<http://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Tywydd-Garw/Graeanu-a-biniau-halen.aspx>> neu mewn argyfwng, ffoniwch 01766 771000.

## Estyniad i oleuadau stryd ym Mynydd Llandygái

Yn dilyn cais gan drigolion lleol, cadarnhawyd bydd y Cyngor yn gwneud cais i Gyngor Gwynedd i estynu'r goleuadau stryd ar y ffordd rhwng Arafon a Fferm Bwlch.

## Rhodddion blynyddol

Yn amodol ar adolygiad blynyddol, mae Cyngor Cymuned Llandygái yn darparu cymorth ariannol i grwpiau a mudiadau lleol. Rhaid i ddiben y cais gydymffurfio â deddfwriaeth llywodraeth leol gyfredol a darparu budd uniongyrchol i rai neu bob un o drigolion yr ardal. Ni all y Cyngor roi grantiau i unigolion.

I wneud cais neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â [cyngorllandygai@ogwen.org](mailto:cyngorllandygai@ogwen.org). Bydd angen cwblhau ffurflen cais ac amgáu copi o gyfrifon/datganiadau banc cyfredol. Fydd y ceisiadau yn cael ei ystyried yn ein cyfarfod ar yr 20fed o Fawrth, 2025.

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

### Daeth yr awr!

Pleser yw cyhoeddi mai Gwenda Evans o Lanfairfechan (gynt o Dalybont a chyn-ddisgybl Ysgol Llandygái) yw enillydd Raffl Santes Dwynwen eleni. Llongyfarchiadau Gwenda! Mae Gwenda a'i theulu yn mynychu ein gwasanaeth Naw Llith a Charol blynyddol yn selog. Gwnaethpwyd elw o dros £300 at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys. Diolch i bawb a fu yn brysur yn prynu a gwerthu yn y pentref ac yn y gymuned ehangach.

### Ymweliad CADW

Daeth Arolygwr Adeiladau Hanesyddol Gogledd Cymru CADW draw i St Tegai ddechrau mis Chwefror er mwyn gweld y gwaith a wnaethpwyd ar y tŵr i atal mynediad dŵr i'r adeilad. Clywodd gyda phleser y byddem yn symud ymlaen yn y dyfodol gyda mwy o fesurau i ychwanegu at amddiffyn yr eglwys rhag ychwaneg o ddifrod. Cadarnhaodd yr Arolygwr ein bod ar y trywydd cywir wrth symud yn araf a gofalus drwy'r camau a pheidio â gwario yn ofer. Rydym yn atebol i'n cynulleidfa a'n cymuned sydd mor gefnogol, felly roedd yn ollyngdod i glywed fod ein dull o ymateb i'r broblem yn dderbyniol. Ymlaen â ni!

### Croeso'n ôl


Mae Rachel Tombs yn ôl yn ein plith ar ôl gwyliau yng Ngwlad Thai a Chambodia. Mae Rachel yn ffyddlon yn y gynulleidfa ac yn gweinyddu wrth yr allor. Croeso yn ôl hefyd i'w chymdoges Alwena Williams yn dilyn triniaeth laser llwyddiannus ar ei llygaid; bydd yn cadw golwg barcud arnom o hyn ymlaen! Daeth Aswin Kokkat a Reshma Silvester yn ôl o India gyda newyddion mwy gobeithiol am gyflwr iechyd tad Aswin. Da iawn clywed.

### Dathlu Dewi Sant

Dechreuwyd dathliadau Dewi Sant yn Ysgol Llandygái ar ddydd Gwener Chwefror 21ain cyn yr hanner tymor pan ymunodd y plant â'r orymdaith fawr ym Mangor ond cynhaliwyd wythnos gyfan o weithgareddau cymreig hefyd yn yr wythnos yn dilyn yr hanner tymor, Mawrth 3ydd i'r 7fed. Mae Wythnos Cymru yn Ysgol Llandygái yn ddigwyddiad blynyddol sy'n llawn hwyl a chyffro. Chwaraeodd clochyddion St Tegai eu rhan drwy ganu eu mawl i'r sant dros benwythnos ei wyl nawddsant.

### Llyfr am un o "blant Llandegai"

Daeth copi o "He's down the club" gan Richard Lloyd Jones i'n sylw yn ddiweddar. Yn y gyfrol mae Richard yn disgrifio ei fagwraeth yn Llandegai a'i gariad, ymroddiad a'i lwyddiant fel aelod gydol oes o Glwb Criced Bangor yn Nhŷ Newydd. Chwaraeodd Richard ar lefel lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ei yrfa disglair tra'n gweithio'n llawn amser fel athro Mathemateg. Enillodd hefyd glôd a gwobr am ei waith fel hyfforddwr chwaraeon. Rydym yn falch iawn o'i deyrngarwch a ddengys Richard at drigolion y pentref, yr ysgol, yr eglwys a phob un oedd yn gefn iddo drwy ei fywyd cynnar. Un o "blant Llandegai" yn wir!



## Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái

### Y Pasg

Cynhelir gwasanaeth Y Pasg am 11.00 ar Ebrill 20fed. Diwrnod addurno'r eglwys l'w gadarnhau.

### Ar y Sul

Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

### Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

### Manylion Cyswilt

Yn ystod salwch y Parch Ddr Gareth Lloyd, gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen. [davidparry@churcheinwales.org.uk](mailto:davidparry@churcheinwales.org.uk)



Dilynwch Llais Ogwan ar X  
[@Llais\\_Ogwan](https://twitter.com/Llais_Ogwan)

# YSGOL LLANDYGAI



## Dosbarth Enfys

Fel rhan o'u gwaith ar stori Cantre'r Gwaelod, mae'r disgyblion wedi bod yn treulio amser yn ein hardal tu allan. Buont yn datblygu eu sgiliau mesur cyfaint wrth geisio darganfod y botel sy'n dal y mwyaf o ddŵr ar gyfer y parti yn y castell. Bu'r disgyblion hefyd yn creu cacennau mwd gydag eisin arbennig ar gyfer y parti i'r brenin Gwyddno Garanhir. Gwelwyd nifer fawr o gestyll yn cael eu hadeiladu gyda blociau mawr y tu allan ac hefyd gyda siapiau 2D a 3D o fewn y dosbarth.

## Dosbarth Gwawr

Yn ddiweddar, mae'r plant wedi bod yn ymchwilio i un o gwestiynau'r disgyblion - 'Pwy wnaeth feddwl am amser a phryd oedd hynny?' Yn ystod y gwaith yma, daethant ar draws gwybodaeth am glocliau haul. Felly, rhaid oedd creu clocliau haul a mynd allan i ymchwilio. Yn ffodus, cafwyd diwrnod braf i fynd allan bob awr i ddefnyddio eu clocliau haul ac hefyd i fesur cysgod polyn ar y buarth. Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn dysgu

am drydan – peryglon trydan o fewn y tŷ, sut i greu cylchedau trydan a gwaith arsylwi manwl mewn celf am fylbiau golau.

## Dosbarth Awel

Wyddoch chi bod sŵ yn Ysgol Llandygai? Wel dyna beth mae Dosbarth Awel wedi bod yn ei gynllunio a'u creu fel rhan o'u gwaith ar y llyfr 'Halibalw y sŵ'. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn cynllunio sŵ a bellach mae modelau arbennig wedi eu creu gan y disgyblion fel cartrefi i'r anifeiliaid – llewod, pengwinaid, teigrod a llawer mwy. Fel rhan o wethgaredd Menter Iaith Bangor, cawsant gyfle i gyfansoddi cân am Elen Benfelen ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol.

## Dosbarth Tirion

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r disgyblion wedi cychwyn ar sesiynau hyfforddiant rygbi gyda Mr Baston o Ysgol Tryfan ac hefyd sesiynau hyfforddi criced gydag un o hyfforddwyr Criced Cymru. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn mwynhau



sesiynau Ysgol Goedwig yr hanner tymor yma. Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect gyda Chwmni'r Frân Wen ar gyfer Gorymdaith Gŵyl Ddewi Bangor – gobeithio y bydd cyfle eto i ddatlu. Dymunwn yn dda i Ms Marian ar gychwyn ei chyfnod mamolaeth ac i Mrs Davies ar ei secondiad dros y misoedd nesaf. Mae'n hyfryd gweld Anti Carol yn ôl yn y gegin wedi cyfnod o salwch a diolch yn fawr i Anti Nia am ei gwaith yn paratoi cinio blasus yn ystod ei habsenoldeb.

## SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

### CYSYLLTWCH:

✉ [sian.gwenllian@senedd.cymru](mailto:sian.gwenllian@senedd.cymru)

☎ 01286 672 076

📍 70 Stryd Fawr, Bangor

 Senedd Cymru  
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan  
Gomisiwn y Senedd o grantfeydd cyhoeddus

## Contractwyr Trydanol



### Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penralla,  
Tregarth, Bangor, Gwynedd,  
LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982


E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



*Oes gennych chi ddiddordeb  
i hysbysebu yn Llais Ogwan?*

*Cysylltwch â Neville Hughes  
(Ffôn 600853)  
[nev\\_hughes@btinternet.com](mailto:nev_hughes@btinternet.com)*

# C R O E S A I R



## AR DRAWS

- 1 Dechrau sgwrsio o flaen y lle uchaf er mwyn cael ystafell i weithio (6)
- 4 Bod yn well na neb arall (6)
- 7 Er yn ddryswch, mae yn dod i wadu'r hawl i roi caniatad (9)
- 9 Yn ôl ac ymlaen i ddangos ein perchnogaeth (4)
- 10 Bod yn swynol fel côr yn unol (4)
- 11 Pwnc gwyddonol (5)
- 13 Er mwyn setlo'r bil (6)
- 14 Roedd o'n dirgrynu o ochr i ochr (6)
- 15 Mae sêr yn dod i'r brig i brif fenyw'r dref (6)
- 17 Dyddiadurwr ifanc a'i gyfenw fel twrch daear o Loegr (6)
- 19 Llyn mwyaf yr Eidal. Efallai fod plismon o lwerddon yno ! (5)
- 20 Dewis un o ddau, y - - - - neu'r llall (4)
- 22 Cant yn gwybod nad yw'n dda yn dy glustiau (4)
- 23 Heb amser i siarad ar y ffôn – dim ond eiliad neu ddau (6,3)
- 24 Pysgodyn bach ifanc bwytadwy (6)
- 25 Pentref maboed prifardd "Cilmeri" (6)

## I LAWR

- 1 Cyfarchiad militaraid (6)
- 2 Dathliad mawr y mis, Gŵyl - - - - (4)
- 3 Gwneud neuadd daclus i bum cant ; dyna oedd yr addewid (6)
- 4 Rhes o ddoctoriaid dryslyd yn dangos ymffrost a balchder (6)
- 5 Unioni yn y gad i fod efo trefn (4)
- 6 Y fam bluog sy'n eistedd cyn deur (3,3)
- 7 Math o gyffuriau sy'n lleihau poen (9)
- 8 Dyn o Amsterdam efallai (9)
- 11 March blin a dig, er enghraifft (5)
- 12 Sefydliad elusenol yng Ngwynedd i ieuencid di-gartref (5)
- 15 Lle delfrydol i gofleidio ac anwesu (6)
- 16 Ganol dydd mae hwn bob amser yn ddiwrnod gwlyb iawn (6)
- 17 Cwmni dillad ac esgidiau hamdden a chwaraeon (6)
- 18 Yn ôl y gair, dyma'r lle mae syrffed ac ymddygiad diflas yn cael effaith (6)
- 21 Mwd a baw (4)
- 22 Mae llawer o wahanol foduron i'w cael (4)

## ATEBION CROESAIR CHWEFWR 2025

**AR DRAWS** 1 Swnt, 4 Degwm, 8 Cwerylau, 9 Lard, 10 Person, 11 Dynesu, 12 Perswâd, 16 Ffeirio, 18 Impiad, 20 Graff, 21 Gwibdaith, 22 Onnen, 23 Unlle

**I LAWR** 2 Wyres, 3 Telynor, 4 Deued, 5 Gelenod, 6 Moresg, 7 Gwaed, 12 Paraffin, 13 Weithiau, 14 Geirio, 15 Palis, 17 Organ, 19 Padell

Yr unig lithriadau gafwyd y tro yma oedd 'cwarelau' yn lle 'cwerylau' (8 Ar Draws), 'impynu' yn lle 'impiad' (18 Ar Draws), ac 'encil' yn hytrach na 'palis' (15 I Lawr)

Ond llongyfarchiadau i'r canlynol am anfon atebion hollol gywir: Gwenda Davies, Llanfairpwll; Gill King, Mynydd Llandygai; Barbara Jones, Talybont; Medi Michael, Bangor; M. A. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid; Iona Williams, Llanddulas; Doris Shaw, Rita Bullock, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Meilyr Wyn, Huw a Gwenno, Gerlan; Judith Hughes, Llangoed; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas

Ar y brig y mis yma am y wobr a'r clod y mae ymgais Medi Michael, 9 Lôn y Meillion, Bangor, Gwynedd LL57 2LE. Da iawn chi.

Atebion erbyn **4ydd Ebrill 2025** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i **'Croesair Mawrth'**, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



## MODURDY FFRYDLAS



**PERCHNOGION**  
A.L.L. ac R.W. WILLIAMS  
**Stryd Fawr, Bethesda**  
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO  
TEIARS A BATRIS  
GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723  
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais  
Ogwan ar X  
**@Llais\_Ogwan**

